# AB0506

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales








# Beth yw ein gwaith...

## ...beth rydyn ni wedi bod yn ei wneud...

## ...a beth rydyn ni'n teimlo bod angen ei wneud...


survived
A class
5

# Cynnwys


| | | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|
| **RHAGAIR:** | Gair gan Peter Clarke | 4 |
| **ADRAN UN:** | Beth yw ein gwaith | 6 |
| **ADRAN DAU:** | Beth rydyn ni wedi bod yn ei wneud | 11 |
| | Rhoi cyngor a chefnogaeth<br>Cyflawni newidiadau er gwell<br>Y DU, Ewrop a'r tu hwnt<br>Yr adolygiadau a'r adroddiadau diweddaraf | |
| **ADRAN TRI:** | Cadw plant a phobl ifanc yn ganolog i bopeth a wnawn | 29 |
| | Cynnwys plant a phobl ifanc yn ein gwaith<br>Cynnal deialog gyda phlant a phobl ifanc Cymru<br>Rhoi'r gair ar led a chodi llais ar ran plant a phobl ifanc<br>Ymchwil werthuso: I ba raddau rydyn ni'n llwyddo? | |
| **ADRAN PEDWAR:** | Ein rhaglen waith at y dyfodol | 39 |
| **ADRAN PUMP:** | Beth rydyn ni'n teimlo bod angen ei wneud: Adolygiad Comisiynydd Plant Cymru o faterion sy'n berthnasol i hawliau a lles plant | 41 |
| | Gwasanaethau eiriolaeth annibynnol<br>Rhoi argymhellion Clywch ar waith a chefnogaeth gwnsela<br>Gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc a gwasanaethau iechyd eraill i blant a phobl ifanc<br>Tlodi plant<br>Gwasanaethau i bobl ifanc sy'n ymddwyn mewn modd rhywiol niweidiol<br>Addysg plant sy'n derbyn gofal a bod yn rhieni corfforaethol da<br>Tynnu'n ôl o wirfodd neu waharddiadau anffurfiol<br>Dyfais y mosgito a pharch<br>Limwsînau a diogelwch cerbydau<br>Plant a bwyd<br>Nyrsys ysgol<br>Defnydd diogel o'r rhyngrwyd<br>Cludiant ysgol<br>Amddiffyn plant mewn canolfannau gweithgareddau<br>Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn | |
| **ADRAN CHWECH:** | Gwybodaeth ariannol | 53 |

Tîm y Comisiynydd Plant: siart trefniadol — Tudalennau canol



**Rydym yn ddiolchgar unwaith eto i'r holl blant a phobl ifanc sydd wedi gweithio gyda ni yn ystod y flwyddyn, bod hynny fel aelodau o'n Grwpiau Ymgynghorol, trwy ein gwaith uniongyrchol, fel llysgenhadon ysgol, aelodau o Atebnôl, neu drwy gymryd rhan yn ein gwaith ymgynghori, ein digwyddiadau neu'n hadolygiadau. Mae llawer o'u safbwyntiau a'u sylwadau ar ddwy thema flaenoriaeth ysgolion ac addysg a chwarae ac amser rhydd, yn ogystal â'u ffotograffau, i'w gweld ar hyd yr adroddiad.**


*Mae modd darparu'r adroddiad hwn mewn fformatau eraill ar gais.*

Beth yw ein gwaith...

...beth rydyn ni wedi bod yn ei wneud...

...a beth rydyn ni'n teimlo bod angen ei wneud...


**Cyfeiriadau a manylion cyswllt**

Tŷ Ystumllwynarth
Llys Siarter
Phoenix Way
Llansamlet
Abertawe SA7 9FS
Ffôn: 01792 765600
Ffacs: 01792 765601

Plas Penrhos
Oak Drive
Bae Colwyn
Conwy LL29 7YW
Ffôn: 01492 523333
Ffacs: 01492 523336

E-bost:
post@complantcymru.org.uk
Gwefan:
www.complantcymru.org.uk

# Gair gan Peter Clarke

Bob blwyddyn rwyf wedi croesawu'r cyfle a gaf yn fy adroddiad blynyddol i edrych ar y gwaith rydyn ni wedi bod yn ei wneud yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae'n rhoi cyfle i ni ddweud ychydig mwy wrth bobl am sut sefydlwyd swyddfa'r Comisiynydd Plant yng Nghymru, pa bwerau sydd gen i i'm helpu gyda'r gwaith o ddiogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant a phobl ifanc, a pha waith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Serch hynny, un o'r pethau gorau am yr adroddiad yw ei fod yn rhoi cyfle i ni amlygu'r materion a ddaeth i'n sylw drwy bob agwedd ar ein gwaith. Mae rhai o'r pethau rydyn ni'n eu dysgu wrth wrando ar blant a phobl ifanc yn gadarnhaol, ond fel y byddech yn disgwyl, rydyn ni hefyd yn clywed llawer o bethau negyddol.

Yn sgîl newid yn y rheoliadau, nid oes rhaid i mi gynnwys gwybodaeth ariannol fanwl yn yr adroddiad hwn. Rwy'n dal yn ymroddedig i sicrhau bod y ddogfen hon yn hysbysu'r cyhoedd ynghylch plant a'm gwaith drostynt. Mae hefyd yn nodi pa weithredu rydyn ni'n teimlo ddylai gael ei wneud gan amrywiaeth o asiantaethau.


Cyflawnwyd llawer yn 2005-06, pan gefais y pleser o weld llawer o'm cynlluniau er datblygu'r sefydliad yn cael eu rhoi ar waith. Yn fwyaf nodedig bu cynnydd o ran y ddau flaenoriaeth a nodwyd yn fy nau Adroddiad Blynyddol diwethaf, sef sefydlu gwasanaeth cyngor a chefnogaeth penodol a hefyd cynyddu cyfranogiad a rhan plant a phobl ifanc yn ein gwaith.

Gwaetha'r modd, bu ambell rwystr hefyd, ac er fy mod yn falch (ac yn teimlo cryn ryddhad) o fod yn ôl wrth y llyw wedi cyfnod o salwch difrifol, effeithiodd hynny ar ein gallu i gyflawni'n holl gynlluniau, a bu'n rhaid newid rhai terfynau amser. Yr amlycaf o'r rhain yw'r oedi wrth gwblhau ein hadolygiad thematig ar fwlio – er nad yw hynny'n golygu bod y mater hwn wedi symud o frig yr agenda pan nad oeddwn i mewn sefyllfa i wneud cyfraniad rhagweithiol i'r gwaith. Yn fwy nag erioed, rwy'n ddiolchgar iawn i'm tîm cynyddol o staff am droi fy ngweledigaeth yn realiti.

Rhoddodd fy salwch gyfle hefyd i mi fyfyrio ar agweddau pwysicaf fy ngwaith. Rhan fawr o'm gwaith yw codi llais dros blant a phobl ifanc a hyrwyddo'u hawliau, gan eu bod mor aml yn cael eu beirniadu a heb gael cyfle i leisio barn drostynt eu hunain. Dyma'r peth mwyaf hanfodol o hyd y mae'n rhaid i ni ei sicrhau ar gyfer ein plant yng Nghymru. Mae angen bod gennym systemau, prosesau ac agweddau yn eu lle sy'n caniatáu i blant – yn enwedig plant hawdd eu niweidio – fynegi eu barn a'u pryderon, a bod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae thema gwrando a gweithredu wedi dod i'r amlwg yn gyson yng ngwaith fy swyddfa, ac mae dau fater sydd wedi achosi pryderon llawer mwy na'r disgwyl, o'm rhan i: eiriolaeth a chwnsela i bob plentyn. Byddaf yn parhau i ymdrechu i sicrhau bod y rhain yn cael eu datblygu'n briodol.



Rwy'n aml wedi gwneud y sylw mai prif nod Comisiynydd Plant ddylai fod gwneud ei swydd yn ddiangen. Petai pawb yn diogelu lles plant ac yn eu hannog i chwarae rhan lawn yn y gymdeithas, fyddai dim angen Comisiynydd. Er bod hyn yn wir, nid yw hynny'n gysur wrth i mi sylweddoli mai fy adroddiad nesaf fydd fy un olaf fel Comisiynydd. I bob pwrpas dyna fydd fy 'Adroddiad Diwedd Tymor' wrth i mi gyrraedd diwedd fy nghyfnod yn y swydd. O ran fy sylwadau ar berfformiad Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff eraill ar y materion sydd, yn fy marn i, yn hanfodol, rwy'n gobeithio'n fawr y bydd yn taro nodyn cadarnhaol, yn hytrach na 'gallai fod yn well'.



**Peter Clarke**

*Peter Clarke, Comisiynydd Plant Cymru*
*Hydref 2006*

parch
cynnwys
lleisiau
hawliau
gwrando
agored
cefnogaeth
tegwch



# Adran 1

# Beth yw ein gwaith...

## Cyflwyniad

Rydym yn ffodus yng Nghymru ein bod wedi cyflawni llawer o bethau mewn perthynas â hawliau plant am y tro cyntaf yn y DU. Mae'r blynyddoedd o ymgyrchu a lobïo, o gynyddu ymwybyddiaeth a phwysleisio'r angen am gynnwys pobl ifanc a'u cymryd o ddifrif, wedi dwyn ffrwyth. O leiaf mae'n ymddangos felly ar bapur.

Mae rhai o'r sialensiau sy'n wynebu'r rheiny sy'n gweithio ym maes hawliau plant yng Nghymru bellach yn ymddangos rywfaint yn fwy heriol. Yn sicr yn sgîl enillion cyflym dyddiau cynnar y Cynulliad Cenedlaethol cawsom sawl rheswm dros fod yn llawen. Ond yn ystod y blynyddoedd nesaf, er gwaethaf y ffaith y gall ymddangos yn dipyn o ymdrech, rhaid i ni sicrhau nad ydym yn colli gafael ar ein penderfyniad i yrru newidiadau yn eu blaen a sicrhau bod y geiriau cynnes yn llawer mwy na rhywbeth arwynebol yn unig.

Fel tîm rydym yn ymroddedig i wneud Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn realiti yng Nghymru. Gwrando ar blant a phobl ifanc, eu grymuso, dysgu o'r hyn a glywsom a gweithredu arno yw conglfeini'n gwaith. Adlewyrchir cylch gorchwyl eang gwaith y Comisiynydd Plant yn ystod ac amrywiaeth yr hyn rydym yn ei wneud. Mae llawer i'w gyflawni o hyd, a gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn dweud cymaint wrth ddarllenwyr am y broses o wneud ein gwaith ag am y casgliadau a'r canlyniadau.

## Beth yw Comisiynydd Plant?

**Rhywun sy'n codi llais dros hawliau a lles plant a phobl ifanc ac yn eu hyrwyddo**

**Pencampwr plant**

**Sefydliad hawliau dynol annibynnol**

**Rhywun sy'n helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn eu hawliau ac yn medru lleisio barn**

Mae union waith pob Comisiynydd Plant, a sut mae'n ei gyflawni, yn amrywio o wlad i wlad – ond maent bob amser yn gweithredu i sicrhau'r gorau i blant a phobl ifanc. Mae nifer y Comisiynwyr Plant ar gynnydd yn Ewrop a ledled y Byd wrth i wledydd ddod yn fwy ymwybodol o'r angen am hyrwyddo a diogelu hawliau a lles plant a phobl ifanc, a'u cymryd o ddifri. Bellach mae gan bob un o wledydd y DU Gomisiynydd sy'n gweithio dros Blant a Phobl Ifanc.

"Mae'n dda bod cymaint o ffyrdd gwahanol o ddysgu yn yr ysgol, fel actio, y bwrdd gwyn, celf a TG."

## Pam mae gan Gymru Gomisiynydd Plant?

**Weithiau mae hawliau plant yn cael eu hanwybyddu, neu eu hanghofio**

**Does dim pŵer economaidd a gwleidyddol gan blant**

**Weithiau dyw plant ddim yn cael yr hyn y mae ei angen arnyn nhw**

**Weithiau mae plant mewn perygl**

Ymgyrchodd sefydliadau plant yng Nghymru am Gomisiynydd Plant am dros 10 mlynedd. Roedd gwleidyddion yn y Cynulliad hefyd yn frwd o blaid y syniad. Roeddent am gael rhywun fyddai'n codi llais dros hawliau plant a phobl ifanc ac yn helpu i gryfhau a gwella'r systemau oedd yn bodoli i'w hamddiffyn.



# Sut cafodd Cymru Gomisiynydd Plant?

Yn gynnar yn 2000, cyhoeddodd Syr Ronald Waterhouse ei adroddiad – Ar Goll mewn Gofal – wedi ymchwiliad hir i gam-drin plant mewn cartrefi plant yng Ngogledd Cymru. Argymhellodd y dylai Cymru gael Comisiynydd Plant i geisio atal pethau felly rhag digwydd eto. Cyflymodd hyn yr ymgyrch a daeth deddfwriaeth i rym yn Senedd y DU er mwyn creu'r swydd a rhoi iddi'r pwerau angenrheidiol.

Sefydlwyd swydd Comisiynydd Plant Cymru – y gyntaf o'i bath yn y DU – gan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Ehangodd Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 y cylch gorchwyl a chyflwyno prif nod y Comisiynydd, sef diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant yng Nghymru.




# Pwy yw Comisiynydd Plant Cymru?

Peter Clarke – a daeth ef i'w swydd ar Ddydd Gŵyl Dewi 2001. Fe'i penodwyd gan Brif Weinidog Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi iddo gael ei gyfweld gan blant, pobl ifanc ac oedolion.

**Diben y Comisiynydd Plant a'i dîm yw helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru:**

- yn ddiogel rhag niwed a cham-drin
- yn derbyn y cyfleoedd a'r gwasanaethau y maent yn eu haeddu ac y mae eu hangen arnynt
- yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi
- yn medru codi llais yn eu cymunedau a chwarae rhan mor llawn â phosibl mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt
- yn gwybod am eu hawliau a Chonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn.

Y prif ffocws yw pawb 18 oed a iau sy'n byw yng Nghymru, neu'n byw yng Nghymru fel arfer. Fodd bynnag, gall y Comisiynydd Plant weithredu hefyd ar ran pobl ifanc hŷn o dan rai amgylchiadau arbennig – er enghraifft os ydynt wedi derbyn gofal gan awdurdod lleol. Os oes goblygiadau i blant a phobl ifanc heddiw, gall hefyd ymchwilio i bethau a ddigwyddodd i oedolion pan oeddent yn blant.

"Yn y clwb ieuenctid, sdim pawb yn gallu ymuno â'r gweithgareddau."

# Beth yw Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn?

Rhestr o hawliau yw'r confensiwn, y mae bron holl wahanol wledydd y byd wedi ei dderbyn. Mae'n dweud y dylid cadw pob plentyn a pherson ifanc yn ddiogel, y dylent dderbyn y pethau angenrheidiol i dyfu a datblygu fel pobl, ac y dylid eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu bywydau.

# Sut mae'r Comisiynydd a'i dîm yn gwneud eu gwaith?

**Sut rydyn ni'n ei wneud…**

- **Gwrando ar blant a phobl ifanc**
- **Dweud wrth bobl sy'n gallu gwneud gwahaniaeth beth ddylai newid**
- **Rhoi cyngor a chefnogaeth**
- **Gwirio bod pobl yn gwneud eu gorau dros blant a phobl ifanc, yn eu cymryd o ddifri, ac yn eu trin â pharch**
- **Dweud wrth bawb – gan gynnwys plant a phobl ifanc – am hawliau plant**

Nid dim ond ar faterion sy'n cael eu hystyried yn faterion plant fel arfer, megis iechyd, addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol, y mae Comisiynydd Plant Cymru'n edrych.

Mae cynllunio, cludiant, yr amgylchedd, datblygiad economaidd a materion gwledig hefyd yn cael eu cwmpasu gan ei rôl.

Gall y Comisiynydd:

- adolygu effeithiau polisïau, polisïau arfaethedig a chyflwyno gwasanaethau i blant
- archwilio'n fanylach achos plentyn neu blant penodol os yw'n cynnwys mater sy'n gyffredinol berthnasol i fywydau plant yng Nghymru
- gofyn bod asiantaethau neu bersonau sy'n gweithredu ar eu rhan yn darparu gwybodaeth, a gofyn bod tystion yn rhoi tystiolaeth ar eu llw
- darparu cyngor a chymorth i blant a phobl ifanc, ac eraill sy'n pryderu ynghylch eu hawliau a'u lles.

Mae gan Gomisiynydd Plant Cymru hefyd bŵer ychwanegol pwysig, sef ystyried a chyflwyno cynrychiolaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch **unrhyw fater** sy'n effeithio ar hawliau a lles plant yng Nghymru.


Mae'r Comisiynydd Plant yn ymroddedig i:

- sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gwybod ble mae ei swyddfeydd a sut mae cysylltu ag ef a'i dîm
- annog plant i gysylltu ag ef a'r tîm
- gofyn barn plant am ei waith a'i waith at y dyfodol, a chaniatáu iddynt ddylanwadu ar ei raglen waith
- sicrhau ei fod ef a'i staff yn mynd i gwrdd â phlant ble bynnag y maent
- talu sylw arbennig i blant 'anodd eu cyrraedd', oherwydd eithrio cymdeithasol neu sydd ar y cyrion mewn rhyw fodd
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plant, gan ei gadw mewn cof ym mhopeth mae ef a'r tîm cyfan yn ei wneud.

# Sut rydyn ni'n gweithio

Mae'r Comisiynydd Plant a'i staff wedi'u lleoli mewn swyddfeydd yn Abertawe a Bae Colwyn, ond maent yn gweithio ledled Cymru. Yn ogystal â'r Comisiynydd a'i Gynorthwy-ydd Personol, mae pedwar grŵp gwahanol o staff, gyda Chomisiynydd Cynorthwyol neu swyddog cyfatebol yn ben ar bob un ohonynt. Dyma'r pedwar:

- Cyfathrebu a Chyfranogiad
- Gwasanaethau Corfforaethol
- Cyfreithiol ac Ymchwiliadau
- Polisi a Gwerthuso Gwasanaeth.




Mae pob grŵp o staff yn cyfrannu sgiliau a gwybodaeth arbenigol ac mae llawer o brosiectau a darnau o waith yn cynnwys staff o feysydd gwahanol yn cydweithio fel tîm aml-swyddogaeth.

> "Y peth sy'n dda am fy ysgol i yw'r athrawes, Miss Roberts."

## Am wybod mwy?

- Mae Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 ar wefan Llyfrfa ei Mawrhydi, yn **www.opsi.gov.uk/legislation**
- Derbyniodd y Cynulliad Reoliadau ar gyfer y Comisiynydd Plant ym mis Gorffennaf 2001 a chewch hyd i'r rhain hefyd ar wefan Llyfrfa ei Mawrhydi, yn **www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wales_legislation**
- Mae dogfen ymgynghori'r Cynulliad ar y cynigion ar gyfer rheoliadau'r Comisiynydd yn rhoi mwy o fanylion am y cylch gorchwyl a'r pwerau llawn. Mae ar gael ar wefan y Cynulliad, yn **www.wales.gov.uk/subichildren**
- Mae llawer o wybodaeth a fersiwn hawdd ei deall o Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn ar gael ar **www.unicef.org.uk/youthvoice/rights, www.plantyngnghymru.org.uk, www.unicef.org.uk** neu **www.crae.org.uk**. Hefyd gallech edrych ar **www.draigffynci.org** a **http://cypi.carnegieuktrust.org.uk/cypi/home**
- I gael rhagor o wybodaeth am Gomisiynwyr Plant ac ombwdsmyn ledled Ewrop edrychwch ar: **www.ombudsnet.org**
- I gael mwy o wybodaeth am y gwahanol Gomisiynwyr plant a phobl ifanc yn y DU, ewch i'w gwefannau: Yr Alban **www.sccyp.org**; Gogledd Iwerddon **www.niccy.org**; a Lloegr **www.childrenscommissioner.org**
- Edrychwch ar ein gwefan: **www.complantcymru.org.uk**




# Adran 2

# beth rydyn ni wedi bod yn ei wneud ...

## Defnyddio'r offer sydd ar gael i ni: pwerau statudol y Comisiynydd

Gellir cymharu'r pwerau a gyflwynwyd yn y cyfreithiau a greodd Gomisiynydd Plant Cymru â'r offer y mae eu hangen i wneud y gwaith. Dydy popeth sydd ar gael ddim yn cael ei ddefnyddio bob dydd, ond mae gweithgareddau a rhaglen waith y flwyddyn yn golygu bod y pwerau cyfreithiol yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn nodi rhai pethau y mae'n rhaid i Peter Clarke eu gwneud i fod yn bencampwr gwybodus i blant a phobl ifanc, gan symbylu newid i sicrhau dyfodol mwy disglair a diogel i blant Cymru.

## Rhoi cyngor a chefnogaeth

Yn ôl y ddeddfwriaeth gall Comisiynydd Plant Cymru, fel rhan o'i waith, roi cyngor a chefnogaeth i blant i roi gwybod iddynt am eu hawliau a'u helpu i fynegi eu barn a'u dymuniadau. Gall y Comisiynydd hefyd roi cyngor a gwybodaeth i unrhyw un sy'n pryderu ynghylch hawliau a lles plentyn, neu blant yn gyffredinol. Gall hefyd gynorthwyo, gan gynnwys drwy roi cymorth ariannol, gydag achosion cyfreithiol, plant a phobl ifanc nad yw eu hawliau wedi cael eu parchu. Er bod pwerau swyddfa Comisiynydd Cymru'n eang, mae hefyd rai pethau na allwn eu gwneud – er enghraifft, allwn ni ddim edrych ar unrhyw fater sy'n destun achos cyfreithiol ar y pryd neu sydd wedi bod yn destun penderfyniad gan lys neu dribiwnlys. Hefyd, ni allwn ddyblygu gwaith CAFCASS Cymru.

**Achos enghreifftiol**

*Roedd dyn ifanc mewn llety diogel yn dilyn euogfarn am ymosodiad rhywiol. Roedd anabledd ganddo ac roedd angen mawr iddo dderbyn therapi er mwyn helpu i'w atal rhag troseddu eto. Roedd hefyd yn datgelu camdriniaeth a ddioddefodd ef ei hun pan oedd yn iau. Roedd yr angen am therapi wedi'i nodi ond heb ddigwydd oherwydd dadl ariannol rhwng y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol. Cysylltodd yr awdurdod lleol â ni i gael help ar ei ran. Buom yn trafod gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid sydd wedi cytuno i ariannu rhaglen trin troseddwyr rhyw.*



## Ein gwasanaeth cyngor a chefnogaeth

Bellach mae'r gwasanaeth pwysig hwn yn cael ei ddarparu gan dîm penodol o staff, gyda chefnogaeth arbenigwyr ar draws y sefydliad a chyngor arbenigol allanol. Mae'r gwasanaeth ffôn ar gael ar hyn o bryd drwy ein prif rifau switsfwrdd ac mae ar agor rhwng 10.00 am ac 1.00 pm bob dydd ar gyfer oedolion. Gall plentyn neu berson ifanc ddefnyddio'r gwasanaeth unrhyw bryd pan fydd ein swyddfa ar agor (fel arfer 9.00 am tan 5.00 pm, dydd Llun i ddydd Gwener).

Bydd unrhyw un sy'n ffonio'r gwasanaeth yn medru siarad ag aelod o'r tîm cyngor a chefnogaeth amlddisgyblaeth. Mae plant a phobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw, yn cysylltu â'r tîm. Mae'r gweithwyr proffesiynol sy'n cysylltu â ni yn cynnwys staff gwasanaethau cymdeithasol, ymarferwyr iechyd, athrawon ac undebau llafur. Rydym hefyd yn derbyn galwadau gan eiriolwyr plant, cyfreithwyr, Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol.

Mae'r achosion sy'n derbyn sylw'r tîm cyngor a chefnogaeth yn darparu gwybodaeth werthfawr. Yn ogystal â helpu i gyflawni gwell canlyniadau, mwy o amddiffyniad neu unioni pethau i'r plentyn neu'r person ifanc dan sylw, mae achosion unigol yn aml yn ein cyfeirio at faterion, polisïau neu arferion sy'n achosi llawer o drafferth. Mae dadansoddi beth aeth o'i le ar gyfer un person ifanc yn rhoi cipolwg i ni sy'n hysbysu'n cyfraniad at drafodaeth fwy cyffredinol, ymateb ymgynghori neu ymgyrch benodol, ac yn helpu i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwaith pellach.

## Sut mae'r gwasanaeth yn gweithio

Rydym yn gwrando ar bobl sy'n ffonio, gan siarad â'r plentyn neu'r person ifanc dan sylw cyn gynted â phosib os bydd oedolyn wedi galw ar eu rhan. Rydym yn aml yn cwrdd â nhw i gael darlun llawnach o'u sefyllfa, eu dymuniadau a'u teimladau. Ar ôl casglu'r holl wybodaeth gallwn ddelio â'r sefyllfa mewn sawl ffordd, ond rydym bob amser yn canolbwyntio ar ddod o hyd i ateb – yn trafod, yn hwyluso cyfathrebu, yn mynychu cyfarfodydd, yn cyfryngu neu'n eiriol yn ôl y galw. Mewn rhai achosion bydd ein hymyrraeth yn fwy ffurfiol; defnyddio'n pwerau statudol, er enghraifft, drwy gynnal adolygiad ymchwiliol i amgylchiadau achos penodol am fod iddo oblygiadau i blant a phobl ifanc eraill.

"Mae Mam yn becso gormod pan dwi'n mynd allan i chwarae."

# Rhai ffeithiau a ffigurau

**Achos enghreifftiol**

*Cysylltodd rhiant â'r swyddfa, yn pryderu nad oedd yr Awdurdod Addysg Lleol yn cwblhau'r asesiad statudol ar gyfer eu plentyn am eu bod wedi cyflwyno cwyn ffurfiol yn erbyn y swyddogion dan sylw. Buom ni'n cyfryngu rhwng yr AALl a'r rhieni a chynhaliwyd cyfarfod i drafod unrhyw faterion oedd heb eu datrys.*


" Mae fy addysg i yn y Gymraeg ac mae hynny dda, a dwi'n dysgu ieithoedd arall fel Ffrangeg. "

**Achos enghreifftiol**

*Ffoniodd gofalwr maeth ni am fachgen oedd â phroblemau ymddygiad ac a oedd wedi cael ei leoli y tu allan i'r sir lle roedd yn byw am 4 blynedd. Roedd yn cael trafferth rheoli dicter, yn clywed lleisiau, yn cael meddyliau afiach, wedi niweidio'i hun ac wedi cychwyn tân yn fwriadol. Er ei fod wedi derbyn asesiad, lle nodwyd bod angen cefnogaeth CAMHS arbenigol arno, roedd dadl rhwng dau fwrdd iechyd lleol ynghylch talu'r bil yn golygu ei fod wedi aros ers dwy flynedd am driniaeth. Roedd y gofalwr maeth wedi cyrraedd pen ei thennyn ac roedd y bachgen wedi dechrau ymwneud â gweithgareddau troseddol ac wedi'i wahardd o'r ysgol. Fe wnaethon ni ymyrryd a dod â'r sefyllfa at sylw'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Cytunodd y Bwrdd Iechyd Lleol yn y sir lle roedd wedi'i leoli i dalu am ei driniaeth. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cyflwyno arweiniad cliriach i sicrhau ei bod hi'n amlwg mai'r BILl sy'n lleoli sy'n atebol mewn achosion o'r fath yn y dyfodol.*

Yn ystod 2005-06 deliodd y gwasanaeth cyngor a chefnogaeth ag achosion oedd yn ymwneud â 566 o blant a phobl ifanc. O'r achosion hyn, cyfeiriwyd 30% at asiantaethau neu ffynonellau cyngor a chefnogaeth eraill. O gyfanswm nifer yr achosion, datryswyd 90%, datryswyd 7% yn rhannol, a dim ond 3% oedd heb eu datrys ar ddiwedd y flwyddyn.


## Cyngor a chefnogaeth: Rhyw'r plentyn neu'r person ifanc 2005-06




Yn ystod y flwyddyn dan sylw, cyfran yr achosion a ddaeth at sylw'r gwasanaeth dros y ffôn oedd y mwyaf sylweddol o hyd, heb fawr ddim newid yng nghanrannau'r rheiny oedd yn ysgrifennu e-bost neu lythyr atom.



## Cyngor a chefnogaeth: Sut gwnaed y cyswllt cychwynnol 2005-06




Yn y mwyafrif o achosion, rhiant, gofalwr neu'r teulu estynedig sy'n gwneud y cyswllt cychwynnol. Mae oedolion proffesiynol megis eiriolwyr, athrawon a gweithwyr iechyd hefyd yn cysylltu â ni, ond fel y soniwyd eisoes, byddwn ym mhob achos yn siarad â'r plentyn neu'r plant cyn gynted â phosib i sicrhau ein bod yn deall safbwynt y plentyn, ac nad agenda oedolyn sydd dan sylw. Mewn rhai achosion, os bydd y plentyn neu'r person ifanc yn cytuno i hynny, oedolyn – naill ai gofalwr neu weithiwr proffesiynol – fydd ein prif bwynt cyswllt. Fodd bynnag, mae oedolion bob amser yn cael gwybod mai ar ran y plentyn neu'r person ifanc yr ydym yn gweithredu, ac mai eu lles, eu dymuniadau a'u teimladau hwythau fydd yn penderfynu ar unrhyw gamau a gymerwn, yn hytrach na dymuniadau'r oedolion. Mae'n hanfodol felly eu bod yn derbyn gwybodaeth yn rheolaidd ac yn rhan o bob penderfyniad.


### Achos enghreifftiol

*Cysylltodd person ifanc oedd yn gadael gofal â'r gwasanaeth cyngor a chefnogaeth i gael cyngor ar fyw'n annibynnol ac addysg bellach. Fe wnaethon ni gysylltu â'i hawdurdod lleol a sôn am ei sefyllfa, gan eu hatgoffa y dylen nhw gyflawni eu dyletswydd tuag ati. Cytunwyd ar becyn ariannol i ddiwallu anghenion y person ifanc yma.*

### Achos enghreifftiol

*Cysylltodd mam â ni am ei phlentyn ifanc, a oedd yn derbyn gofal ac a oedd hefyd wedi'i wahardd o'r ysgol am ymddwyn yn ymosodol. Fe wnaethon ni gysylltu â'r ysgol a'r adran gwasanaethau cymdeithasol lleol a dod i gytundeb y byddai'r ysgol yn addysgu'r plentyn nes bod modd cael hyd i ysgol arbenigol. Digwyddodd hyn a symudodd y plentyn i leoliad preswyl yn fuan wedyn.*

## Cyngor a chefnogaeth: Pwy wnaeth y cyswllt cychwynnol 2005-06





Mewn blynyddoedd blaenorol, roedd dadansoddi gwybodaeth am oedran y plant yr oeddem yn gweithredu ar eu rhan yn dangos bod y cyfnodau pontio – o'r ysgol fabanod i'r ysgol iau, o addysg gynradd i uwchradd ac o'r ysgol i addysg bellach a byw'n annibynnol – yn adegau amlwg lle roedd anawsterau'n debygol o godi. Roedd llawer o'r materion y buom yn delio â nhw'n cefnogi'r dadansoddiad cynnar hwn, ond at ei gilydd roedd cynnydd cyson yng nghanran y bobl ifanc yng nghanol eu harddegau oedd yn profi anhawster neu'n teimlo nad oedd gwasanaethau'n eu helpu.

### Achos enghreifftiol

*Cysylltodd mam-gu â'r gwasanaeth cyngor a chefnogaeth am ei bod yn pryderu am lefel y trais yn y cartref roedd ei hwyrion yn ei weld. Roedd hi'n teimlo nad oedd y gwasanaethau cymdeithasol yn cymryd y trais yn y cartref o ddifri, bod y plant yn ofnus, ac nad oedd y gwasanaethau cymdeithasol yn cael mynediad i'r tŷ. Roedd hi'n pryderu bod y plant nid yn unig yn gorfod amddiffyn eu hunain, ond hefyd eu bod yn amddiffyn eu mam i ryw raddau. Ar ôl siarad â'r plant fe wnaethon ni roi pwysau ar yr adran gwasanaethau cymdeithasol i alw cyfarfod aml-asiantaeth. Daeth nifer fawr o asiantaethau iddo a chymerodd y gwasanaethau cymdeithasol y mater o ddifri. Rhoddwyd cynllun aml-asiantaeth ar waith i asesu'r risg i'r plant petaent yn parhau i fyw gartref.*

## Cyngor a Chefnogaeth 2005-06 Oedran a rhyw'r plant fu'n defnyddio'r gwasanaeth




> "Dydy'n ni ddim yn gallu gwneud rhai pethau oherwydd ein bod ni'n rhy ifanc, neu'n rhy hen."

### Achos enghreifftiol

*Ffoniodd person ifanc y swyddfa am ei bod yn cael ei bwlio yn yr ysgol ac yn y gymuned, a bod hynny wedi bod yn digwydd ers 5 mlynedd. Fe wnaethon ni gwrdd â hi a gwrando. Roedd yr heddlu'n gwybod am y sefyllfa ac nid oedd hi'n mynd i'r ysgol bellach achos bod ofn arni. Fe wnaethon ni gysylltu â'r ysgol, trefnu ei bod hi'n mynd yno i sefyll ei harholiadau'n unig a threfnu cyfarfod aml-asiantaeth gyda'r holl broffesiynau, gan gynnwys yr heddlu, fel bod modd rhannu'r wybodaeth berthnasol a chytuno ar gynllun gweithredu. Mae'r person ifanc bellach wedi dychwelyd i'r ysgol yn llawn amser.*

## Pa fath o faterion mae pobl yn cysylltu â ni yn eu cylch?

Cwynion a phryderon unigol ynghylch addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol oedd amlycaf yng ngwaith y tîm cyngor a chefnogaeth eto, gydag ychydig o dan 43% o'r holl achosion yn ymwneud â materion cysylltiedig ag ysgolion ac addysg. Gwelwyd gostyngiad bychan yn nifer y materion amddiffyn plant a ddaeth i sylw'r swyddfa, er bod y cynnydd yng nghyfanswm nifer yr achosion oedd yn ymwneud â materion gwasanaethau cymdeithasol yn golygu nad oedd y newid canran hwn mor arwyddocaol â'r flwyddyn flaenorol. At ei gilydd, roedd bron 23% o'r achosion yn ymwneud â materion gwasanaethau cymdeithasol.

Pan ddaw achosion o'r fath i'n sylw rydym yn gwrando ar y plant a'r bobl ifanc a'u cynrychiolwyr ac yn cwrdd â'r asiantaethau perthnasol i geisio sicrhau bod unrhyw risgiau y rhown wybod amdanynt yn cael eu hasesu. Rydym hefyd yn monitro ymchwiliadau dilynol yn fanwl.

## Achos enghreifftiol

*Ffoniodd nyrs ar ward iechyd meddwl ni ar brynhawn Gwener. Roedd hi'n poeni bod dau berson ifanc wedi cael eu rhoi mewn ward iechyd meddwl i oedolion. Fe wnaethon ni ffonio Comisiwn Iechyd Cymru a ddywedodd fod problem ariannol. Symudwyd y plant o fewn awr.*

" Gwell adeiladau bydde 'n gwneud fy addysg i 'n well. "


## Achos enghreifftiol

*Cysylltodd person ifanc oedd yn derbyn gofal â ni oherwydd ei bod yn anhapus am yr hyn oedd yn digwydd yn ei chartref maeth. Dywedodd ei bod yn cael ei tharo gan ei gofalwr maeth, a oedd hefyd yn gweiddi arni, ac nad oedd ei gweithiwr cymdeithasol yn gwrando arni pan oedd hi'n ceisio egluro beth oedd wedi digwydd. Roedd hi am gwrdd â ni rywle heblaw'r lleoliad maeth fel ei bod yn medru siarad yn ddi-ofn, ac fe wnaethon ni drefnu cwrdd â hi yn yr ysgol lle roedd hi'n teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel. Cysylltodd y Pennaeth â ni i ddweud bod y Pennaeth Gwasanaethau Plant wedi dweud wrtho am beidio â gadael i ni fynd i'r ysgol i gyfweld y person ifanc. Fe wnaethon ni drafod gyda'r Pennaeth, gan egluro'n rôl a hawliau'r plentyn dan sylw. Cynhaliwyd y cyfarfod ac fe wnaethon ni gyflwyno pryderon y person ifanc i'r adran gwasanaethau cymdeithasol. Symudodd hi i leoliad maeth newydd.*

*Rydyn ni wedi lobïo i gael hawl mynediad i sefydliadau i gyfweld â phlant ers cryn amser. Bellach mae'r pŵer yna gennym ni o dan Adran 61 Deddf Plant 2004.*

Rydym hefyd yn rhoi gwybod i gyrff eraill megis byrddau iechyd lleol am achosion amddiffyn plant. Rydym yn ymwybodol bod rhai o'r plant a'r bobl ifanc sy'n cysylltu â ni wedi colli ffydd yn yr asiantaethau statudol. I'w hannog i gysylltu â ni i roi gwybod am eu lles hwy a phlant eraill, yn enwedig y rheiny sy'n derbyn gofal, mae gennym lefel uwch o gyfrinachedd na'r asiantaethau stautdol ac ni fyddwn yn rhannu gwybodaeth ond wedi derbyn caniatâd y plentyn neu os byddwn yn barnu bod y plentyn hwnnw neu blentyn arall mewn perygl uniongyrchol. Byddem yn rhoi gwybod i'r person ifanc pe baem yn penderfynu gwneud hyn ac yn eu cefnogi drwy'r broses ddilynol.

## Cyngor a chefnogaeth: Materion a godwyd 2005-06




Gan fod cynifer o nodweddion tebyg yn rhai o'r achosion a welwn rydym wedi medru ystyried yn ofalus pa gamau mae angen eu cymryd. Er enghraifft, rydym wedi casglu gwybodaeth ar sail yr achosion iaith a lleferydd, ac un o'r

prif faterion sy'n tynnu'n sylw yw diffyg asesu ffurfiol i blant sydd ag anawsterau emosiynol ac ymddygiad, a fyddai'n helpu i nodi problemau eraill, megis anawsterau iaith a lleferydd. Yn aml iawn mae'r diagnosis yn dod yn rhy hwyr, sy'n golygu bod pobl ifanc mewn perygl o gael eu gwahardd a heb fedru cael mynediad i'r gefnogaeth y mae ei hangen arnynt ac sy'n hawl iddynt.

Mae pryder parhaus hefyd ynghylch argaeledd gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag anhwylderau sbectrwm awtistig, yn enwedig y rheiny lle cafwyd diagnosis Syndrom Asperger. Er bod gweithwyr proffesiynol ymroddedig yn cyflwyno gwasanaeth o ansawdd mewn rhai ardaloedd, prin yw'r ddarpariaeth yn y mwyafrif o ardaloedd Cymru. Mae'n destun pryder bod rhieni'n dal i orfod ymladd i sicrhau bod eu plentyn yn derbyn y ddarpariaeth addysgol y mae ganddynt hawl i'w disgwyl. Rydym hefyd yn pryderu am ddyfodol gwasanaethau awtistiaeth trydyddol yng Nghymru ac yn disgwyl cyhoeddi'r Strategaeth Awtistiaeth a'r broses o'i rhoi ar waith â diddordeb.

Mewn llawer o achosion rydym wedi ymyrryd i gyflymu'r cynnydd lle mae plant wedi gorfod aros yn yr ysbyty oherwydd nad oes trefniadau yn y gymuned i gefnogi plant anabl a phlant ag anghenion iechyd cymhleth. Eto mae'n destun pryder bod oedi o'r fath yn parhau os na cheir ymyrraeth i hwyluso gweithio ar y cyd ymhlith yr asiantaethau dan sylw.



**Achos enghreifftiol**


*Roedd plentyn 14 oed ar y gofrestr amddiffyn plant yn byw gyda'i fam-gu, a oedd wedi'i 'droi allan'. Pan gysylltodd â ni roedd yn ddigartref. Fe wnaethon ni gwrdd â fe ac fe ddywedodd bopeth am ei sefyllfa: mor anobeithiol roedd yn teimlo, sut roedd yn teimlo nad oedd yn cael ei helpu gan y gwasanaethau cymdeithasol a'i fod wedi treulio wythnosau'n teimlo'n ofnus, heb wybod beth dylai neu na ddylai ei wneud, na ble y dylai fyw. Dywedodd ei weithiwr camddefnyddio sylweddau wrthym fod y person ifanc yma wedi cael ei adael i ofalu amdano'i hun ac mai ef ei hun oedd yn gyfrifol am ddod o hyd i le i gysgu bob nos. Cawson ni wybod nad oedd yn derbyn ymweliadau na chefnogaeth gan weithiwr cymdeithasol. Fe wnaethon ni ymyrryd ac mae'r dyn ifanc bellach yn byw gyda pherthnasau ac yn cael ei gefnogi gan y gwasanaethau cymdeithasol. Dywedodd wrthym ni fod cyfarfod â'r swyddog cyngor a chefnogaeth wedi gwneud iddo deimlo 'ei fod yn bwysig a bod rhywun yn gwrando'. Gofynnodd i ni ei helpu i ysgrifennu llythyr at y gwasanaethau cymdeithasol i ddweud wrthyn nhw sut roedd e'n teimlo am ei brofiad.*

" Dwi'n gallu chwarae gyda fy chwaer yn yr ardd. "

**Achos enghreifftiol**

*Roedd person ifanc wedi cael amser caled yn emosiynol wedi i un o'i rieni farw, ac o ganlyniad roedd yn cael trafferth codi i fynd i'r ysgol yn y bore. Roedd yr ysgol yn anfodlon ar bresenoldeb y person ifanc ac roedd hyn yn ei roi dan fwy o straen. Trefnodd swyddog cyngor a chefnogaeth gyfarfod gyda'r person ifanc a siaradodd â'r swyddog lles addysg a'r ysgol. Trefnwyd cyfarfod i lunio cynllun cefnogi cydlynus a oedd yn golygu ei fod yn haws iddo barhau i fynd i'r ysgol.*

## Cyngor a chefnogaeth: materion fel canran o'r cyfanswm 2005-06




Yn aml mae materion amddiffyn plant y clywn amdanynt yn ymwneud ag esgeulustod, yn ogystal â cham-drin corfforol neu rywiol, neu fod yn dyst i drais yn y cartref. Rydym yn aml wedi rhannu gwybodaeth gyda'r gwasanaethau cymdeithasol lle rydym wedi cael gwybod am achosion o esgeulustod, fel arfer gan aelodau o'r teulu estynedig. Mae hyn yn arwain at asesiadau ychwanegol sy'n bwydo i benderfyniadau ynghylch diogelu plant. Gwelsom o'n profiad bod angen mwy o hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn y maes hwn, a bod ymyrraeth gynnar yn hanfodol. Mewn llawer o achosion mae'r awdurdod lleol yn ymyrryd mewn argyfwng yn unig, ac weithiau ceir camdriniaeth ddifrifol cyn i esgeulustod gael ei gymryd o ddifri.

Er i ni amlygu'r mater hwn mewn adroddiadau blynyddol blaenorol a galw am fwy o adnoddau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc, mae'r achosion a ddaw i sylw'n gwasanaeth cyngor a chefnogaeth yn dangos bod hwn yn dal yn wasanaeth bylchog, heb ddigon o adnoddau, sy'n methu diwallu anghenion llawer o'n plant a phobl ifanc hawdd eu niweidio. Trafodir hyn ymhellach yn adran 5 yr adroddiad hwn.

### Achos enghreifftiol

*Cysylltodd gofalwr maeth â'r Comisiynydd Plant am ei fod eisiau i'r gwasanaethau cymdeithasol dalu am wersi cerddoriaeth ychwanegol i berson ifanc yn ei ofal. Fe wnaethon ni gwrdd â'r person ifanc a siarad â'r gwasanaethau cymdeithasol i gyflwyno safbwynt y person ifanc. Cytunwyd y bydden nhw'n asesu'r cais ac yn cymryd barn y person ifanc o ddifri. Cytunwyd hefyd y byddai'n cael cynnig eiriolwr i gynrychioli ei farn yn y dyfodol.*

"Dwi 'n hoffi dysgu trwy canu."

# Datblygiadau cyngor a chefnogaeth at y dyfodol

Yn ystod y flwyddyn recriwtiwyd Cydlynydd Gwirfoddolwyr fel rhan o sawl datblygiad yn y gwasanaeth cyngor a chefnogaeth. Mae gwirfoddolwyr yn awr yn cael eu recriwtio gyda chymorth y bobl ifanc o'n grwpiau ymgynghorol.

Bydd yr aelodau newydd hyn o'r tîm yn helpu staff ein gwasanaethau Rhadffon a negeseuon testun SMS am ddim i bobl ifanc a fydd yn cael eu lansio yng ngwanwyn 2007. Er y byddant ar gael i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru sydd am gysylltu â ni ynghylch unrhyw agwedd ar ein gwaith, byddant yn cael eu hyrwyddo'n benodol fel gwasanaeth i blant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, sydd wedi'u gwahardd neu mewn perygl o gael eu gwahardd o'r ysgol, a phobl ifanc mewn llety diogel neu garchar.

Mae gwaith ar hyrwyddo'r gwasanaeth cyngor a chefnogaeth ymhlith y grwpiau penodol yma o bobl ifanc wedi cychwyn eisoes; un enghraifft o hynny yw bod Swyddogion Cyngor a Chefnogaeth yn awr yn ymweld â charchardai'n rheolaidd. Fel menter ar y cyd â'r staff Cyfathrebu a Chyfranogiad, mae hyfforddiant hefyd wedi cael ei ddarparu i Swyddogion Cyswllt Ysgolion yr Heddlu ledled Cymru fel eu bod yn gwbl glir beth yw rôl swyddfa'r Comisiynydd Plant a'r gwasanaeth cyngor a chefnogaeth yn arbennig, pan fyddant yn ymweld ag ysgolion fel rhan o'u gwaith.

" Mae llawer o bethau gyda ni i wneud lle dwi'n byw. Mae fi a fy ffrindiau yn mynd allan a chwarae ar y beics. "

**Achos enghreifftiol**

*Roedd person ifanc yn cael ei bwlio – yn yr ysgol a'r tu allan. Trefnodd swyddog cyngor a chefnogaeth gyfarfod gyda'r person ifanc a'i chefnogi yn ei dewis, sef symud i ysgol newydd. Digwyddodd y symud yn gymharol gyflym, a gwnaeth y person ifanc ffrindiau newydd yn y gymuned ac yn ei hysgol newydd.*

" Mae addysg yn ffordd da i ddysgu am holl ddiwylliannau'r byd. "



# Sicrhau newid er gwell

## Dylanwadu ar bolisïau a gweithdrefnau

Un o brif nodweddion Comisiynwyr Plant yw eu bod yn gweithio mewn ffordd sy'n dod â budd i lawer o blant. Mae dylanwadu ar ddatblygiad polisïau a phwyso am welliannau arfer a gweithdrefnau yn hanfodol felly. Dyw trwsio'r tyllau yn y systemau diogelwch lle mae plant unigol wedi syrthio trwodd ddim yn ddigon.

Yn aml dyw hawliau plant ddim yn cael eu parchu oherwydd bod system neu drefn wedi'i sefydlu er lles y sefydliad yn hytrach na phlentyn neu berson ifanc. Er bod peth o'n gwaith dylanwadu'n digwydd wrth i ni hyrwyddo argymhellion adroddiad neu ddogfen benodol, dro arall mae'n edrych yn benodol ar a yw plant a phobl ifanc wedi gallu lleisio barn neu chwarae rhan mewn cynigion ac wrth wneud penderfyniadau. Rydym wedi datblygu cysylltiadau gyda Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG ledled Cymru, darparwyr eiriolaeth, mudiadau (NGOs) plant a chymdeithasau proffesiynol, yn ogystal â grwpiau diddordeb arbennig, is-adrannau'r Cynulliad a Chyrff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi ymateb i ymgynghoriadau'r Cynulliad, gan seilio'n galwadau polisi ar wybodaeth a gasglwyd trwy ein cyfranogiad, cyngor a chymorth, a gwaith cyfathrebu, yn ogystal ag ar yr hyn rydym ni'n credu ei fod er budd mwyaf i blant. Ar hyd y flwyddyn rydym wedi parhau i ymateb i ymgynghoriadau ar ganllawiau drafft a chynnal adolygiadau – gan ragori ar ein targed o 25%.

"Dwi'n hoffi'r amrywiaeth o wersi gwahanol."

Dyma rai enghreifftiau o ddogfennau a phapurau ymgynghori y gwnaethom ni ymateb iddynt.

- Ymchwiliad Ffurfiol i Anghydraddoldebau Iechyd Corfforol a Brofwyd gan Blant ac Oedolion â Phroblemau Iechyd Meddwl a Phlant ac Oedolion ag Anableddau Dysgu yng Nghymru a Lloegr
- Arweiniad i Gyrff Llywodraethu Ysgolion ar Weithdrefnau Cwynion sy'n ymwneud â Disgyblion
- Ymgynghoriad ar Gynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer rhoi Cymorth Ariannol ar gyfer Gwisg Ysgol
- Ymgynghoriad ar y Cynigion ar gyfer Deddfwriaeth ar Gyflawni Dyletswyddau i Bobl Ddigartref (Mawrth – Mehefin 2005)
- Cynllun Gweithredu Magu Plant – Cefnogi Mamau, Tadau a Gofalwyr sy'n Magu Plant yng Nghymru
- Cynhwysiad a Chefnogi Disgyblion
- Cwynion a Gweithdrefnau Cynrychiolaethau yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol
- Arweiniad Statudol ar Wneud Trefniadau o dan Adran 28 Deddf Plant 2004
- Diogelu Plant gyda'n gilydd – Arweiniad i Fyrddau Diogelu Plant Lleol yng Nghymru
- Plant a Phobl Ifanc: Hawliau i Weithredu (Partneriaethau Cryfach i sicrhau Gwell Canlyniadau)
- Trefniadau Estyn ar gyfer Sicrhau Ansawdd Gwaith sy'n cael ei Gontractio Allan yng nghyswllt Arolygiadau Ysgol Adran 10
- Deddf Addysg 2002 – Adran 175
- Tystiolaeth i Bwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes adolygiad polisi Cynulliad Cenedlaethol Cymru o Anghenion Addysgol Arbennig

- Adolygu Cyflwyno Gwasanaeth yn lleol (Adolygiad Beecham)
- Ymgynghoriad Dechrau'n Deg.

Gwnaethom gyfraniad sylweddol hefyd i Adolygiad y Cynulliad ar Ddiogelu Plant Hawdd eu Niweidio a hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r angen am wasanaethau awdurdodau lleol ar gyfer plant ag ymddygiad rhywiol niweidiol a materion eraill a ddaeth i'r amlwg trwy waith cynghori a chefnogi.

## Adolygu a monitro cynnydd o ran argymhellion

Beirniadaeth gyson ar adroddiadau yw nad ydynt yn symud o'r silff ar ôl cael eu cyhoeddi a derbyn peth cyhoeddusrwydd. Mae'r gallu i ofyn bod ymateb i unrhyw argymhellion a wneir, ac i'w monitro, yn sicrhau nad yw hyn yn digwydd i adroddiadau'r Comisiynydd Plant.

Rydym yn parhau i fonitro gweithrediad yr argymhellion a wnaed yn ein hadroddiadau:

- Datgan pryderon (eiriolaeth, datgelu camarfer a chwynion mewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol)
- Adroddiad Clywch
- Dydy plant ddim yn cwyno… (eiriolaeth, datgelu camarfer a chwynion mewn awdurdodau addysg lleol)
- Codi'r clawr (ar doiledau ysgol)
- Ond mod i'n cyrraedd yn sâff (ar fysus ysgol).

> "Rwy'n hoffi fy adnoddau chwarae gan mod i'n meddwl bod chwarae yn bwysicach na teledu."




## Gweithio gydag eraill

Gan fod ein gwaith yn cwmpasu ystod mor eang o faterion rydym yn ymwybodol iawn na ddylem ddyblygu gwaith asiantaethau eraill. I wybod yn union sut rydym yn gweithio gyda rhai cyrff allweddol eraill rydym yn llunio Memorandwm Dealltwriaeth gyda nhw. Mae'r dogfennau yma'n cael eu llofnodi gan y ddwy ochr sy'n llunio'r cytundeb ac maen nhw'n glir iawn am ein cyfrifoldebau a beth gallwn ni ei ddisgwyl oddi wrth ein gilydd. Mae memorandwm o ddealltwriaeth yn ein helpu i weithio ar y cyd ag asiantaethau y mae eu gwaith yn effeithio ar hawliau a lles plant a phobl ifanc.

Eleni rydym wedi cwrdd â'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn rheolaidd i weld beth yw'r ffyrdd gorau o gydweithio. Rydym wedi cytuno i ymchwilio ar y cyd i achos sy'n ymwneud â lleoli plant y tu allan i'r sir (neu'r wlad) trwy asiantaeth faethu breifat, gan edrych yn benodol ar rolau a chyfrifoldebau'r gwasanaethau cymdeithasol a'r asiantaeth. Teimlwn y bydd hyn yn enghraifft o sut gallwn weithio gyda chyrff eraill er lles plant trwy gyfuno nid yn unig arbenigedd, ond hefyd bwerau statudol y ddau sefydliad.

# Dylanwadu a rhwydweithio

Rydym yn ceisio dylanwadu ar ddiwylliant a'i newid, o fewn sefydliadau neu yn y gymdeithas ehangach, ac mae hyn yn galw am ymagwedd gwmpasog. Mae aelodau o dîm y Comisiynydd yn cymryd rhan ac yn cyfrannu at rwydweithiau a gweithgorau – yn aml fel arsylwyr i ddiogelu'n hannibyniaeth – gan sicrhau ein bod yn dylanwadu ar ddatblygiadau ac yn cyflawni gwelliant yn gynnar yn oes menter polisi neu arfer gwaith. Mae arsylwi mewn llawer o weithgorau wedi golygu ein bod mewn sefyllfa i gadw llygad ar gynnydd a datblygiadau, ond hefyd i wneud awgrymiadau, er enghraifft ynghylch sut gallai'r gweithgorau helpu plant a phobl ifanc i gyfranogi a chyfrannu iddynt. Rydym hefyd yn cyfrannu at nifer o rwydweithiau a grwpiau eraill sy'n gysylltiedig â'n gwaith.

Yn ystod y flwyddyn roedd y grwpiau a'r rhwydweithiau roeddem yn rhan ohonynt, neu'n arsylwi ynddynt, yn cynnwys y canlynol:

- Grŵp Ymgynghorol a Gweithredu Cwynion a Chynrychiolaethau (CRAIG)
- Adolygiad Diogelu Plant Hawdd eu Niweidio, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Cam-drin yn y Cartref: Grŵp tasg a gorffen cyswllt plant yn ystyried agwedd Gwasanaethau Cynghori a Chefnogi'r Llysoedd Plant a Theuluol (CAFCASS) at faterion plant yng nghyswllt cam-drin yn y cartref.
- Y grŵp fu'n adolygu'r broses wrth i Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Swyddfa Archwilydd Cenedlaethol Cymru adolygu perfformiad gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru ar y cyd
- Gweithgor gwrthweithio Ecsbloetio Plant yn Rhywiol
- Fforwm Rhyngasiantaeth Llysoedd Teulu Abertawe
- Cymdeithas Cyfreithwyr Cyfraith Gyhoeddus a Hawliau Dynol Cymru
- Cyngor Cyfiawnder Teuluol
- Datblygu'r Offeryn Hunanasesu ac Archwilio ar gyfer y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol i Blant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth (NSF)
- Gweithgor Cynllun Gweithredu Magu Plant
- LlCC- Gweithgor neiniau a theidiau
- Fforwm Polisi Amddiffyn Plant
- Cymdeithas Cyfraith Teulu Cymru
- Grŵp Polisi Plant NGOs Cymru
- Rhwydwaith Atal Tlodi Plant Cymru
- 'Sdim Curo Plant!
- Grŵp Monitro Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn
- Rhwydwaith Cyfreithiol y Plant (y DU)
- Tasglu Tlodi Plant LlCC
- Plant yng Nghymru Hawliau Plant Grwpiau Cyfnewid Arfer yng Ngogledd a De Cymru
- Tadolaeth Cymru (Fatherhood Wales)
- Grŵp llywio ac is-grwpiau Consortiwm/Uned Cyfranogiad Cymru
- Sefydliadau Pobl Ifanc Cymru Gyfan (AWYPO).






## Gweld y darlun ehangach

Mae cyswllt rheolaidd gyda phlant a phobl ifanc a’r rheiny sy’n gweithio gyda nhw neu’n gweithredu ar eu rhan yn hanfodol. Er y gallwn ganolbwyntio’n bennaf ar rai materion penodol, mae angen hefyd i ni gadw bys ar y pwls o ran rhai materion pwysig eraill. Fel swyddfa mae’n bwysig ein bod yn cyflawni’n rôl fel eiriolwyr systemig, gan geisio dylanwadu ar ddatblygiad polisi a’i roi ar waith a gyrru’r agenda yn ei blaen. Mae materion ehangach yn dod i’n sylw mewn tair prif ffordd:

- cyswllt uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc, er enghraifft trwy waith cyfranogiad neu gyngor a chefnogaeth
- gwybodaeth a rennir gyda ni gan weithwyr proffesiynol a sefydliadau
- agweddau allweddol ar adolygiadau.

Mae hyn yn golygu ein bod yn medru gwneud sylwadau gwybodus ar amrywiaeth o faterion – yn wir, ar unrhyw fater sy’n effeithio ar hawliau a lles plant a phobl ifanc.

cefnogaeth
cyfartal
ffeithiau
dysgu
lleisiau
gwrando
ystyried

# Y Deyrnas Unedig, Ewrop a'r tu hwnt

## Rhwydwaith Ewrop o Ombwdsmyn Plant (ENOC)

Sefydlwyd ENOC ym 1997 ac mae'n cysylltu'r swyddogion plant annibynnol yn y gwledydd Ewropeaidd lle maent yn bodoli. Mae Peter Clarke yn gyn-Lywydd i ENOC, ac rydym yn ymroddedig i'w nodau o annog y gweithrediad ehangaf posib i'r UNCRC ledled Ewrop. Rydym hefyd ar ein hennill o rannu gwybodaeth, dulliau a strategaethau a dysgu o brofiad Comisiynwyr Plant ac Ombwdsmyn eraill.

## Rhwydwaith Prydain ac Iwerddon o Ombwdsmyn a Chomisiynwyr Plant (BINOCC)

Wedi'i sefydlu fel is-bwyllgor i ENOC, mae creu rhwydwaith newydd o Gomisiynwyr Plant yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon wedi dod â llawer o fanteision yn ei sgîl. Mae BINOCC yn cyfarfod yn annibynnol ar ENOC bob deufis. Mae'r Comisiynwyr a'u timau'n rhannu gwybodaeth ac yn trafod materion a dulliau o ddiddordeb cyffredin. Yn ystod 2005-06 cyhoeddwyd dau ddatganiad ar y cyd – ar driniaeth Plant a Phobl Ifanc sy'n Ceisio Lloches ac ar Gosbau Corfforol – a chawsant gryn gyhoeddusrwydd. Mae staff o bob un o'r swyddfeydd hefyd yn medru cydlynu gwaith a rhannu adnoddau a dysgu o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys gwaith adrodd ar gynnydd tuag at roi Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn ar waith yn llawn.

> "Byddai adeilad ysgol newydd a bwyd gwell yn helpu."




## Hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Yn ôl y ddeddfwriaeth, mae'n rhaid i'r Comisiynydd Plant ystyried Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) yn ei holl waith. Byddai gweithdai a chyflwyniadau i blant a phobl ifanc neu'r rheiny sy'n gweithio gyda nhw'n anghyflawn pe na bai rôl y Comisiynydd yn cael ei hegluro yng nghyd-destun hawliau dynol plant a phobl ifanc.

Rydym yn hyrwyddo'r UNCRC a hawliau plant mewn sawl ffordd. Rydym yn annog ymwybyddiaeth o'r egwyddorion sy'n sail i'r confensiwn ymhlith y rheiny sy'n darparu gwasanaethau i blant a'r rheiny sy'n gyfrifol am feysydd.

" Does dim llawer i wneud i bobl yn eu harddegau yn y nhref i, sy'n drist oherwydd bod angen rhywle arnon ni i fynd hefyd. "

polisi sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'r hawl i gael eu hamddiffyn, i dderbyn darpariaeth, ac i fedru cyfranogi yn ganolog i'n hagwedd at gyngor a chefnogaeth. Mae gweithgareddau neu waith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc a'r rheiny sy'n gweithio gyda nhw bron yn ddieithriad yn troi o amgylch yr UNCRC a hawliau.

Seilir holl waith y Swyddfa ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) ond mae'r ffocws yn fwy llym gan fod rhaid i lywodraeth y DU adrodd i Bwyllgor y DU ar Hawliau'r Plentyn ar y cynnydd a wnaed yn 2007. Bydd Comisiynwyr Plant y DU yn cael cyfle i adrodd yn annibynnol i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn.

Cynrychiolir y swyddfa fel arsylwr ar Grŵp Monitro UNCRC NGO Cymru, ac rydym hefyd yn cynnal gweithdai a digwyddiadau, gyda'r plant a'r oedolion sy'n gweithio gyda nhw, i gynyddu eu hymwybyddiaeth o'r UNCRC.

Rydym yn ceisio sicrhau bod cyfeiriad at yr UNCRC yn yr holl ddeddfwriaeth berthnasol a bod asiantaethau'n cynorthwyo a chefnogi plant i ymarfer eu hawliau o dan y confensiwn i fod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Er enghraifft, rydym yn trafod gyda Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru newidiadau i'r ddeddfwriaeth a fyddai'n golygu bod plant a phobl ifanc yn medru apelio iddynt ynghylch agweddau ar eu hanghenion addysgol arbennig neu wahaniaethu ar sail anabledd – hawl sydd ond ar gael i'w rhieni ar hyn o bryd.

parch
cynnwys
lleisiau
hawliau
gwrando
agored
cefnogaeth
tegwch

# Adolygiadau ac adroddiadau diweddaraf

## Rhywun i wrando: Rhywbeth i'w wneud

Mewn adroddiadau blynyddol blaenorol rydym wedi tynnu sylw at y ffaith fod llawer o bobl ifanc yn teimlo nad oes ganddynt unrhyw beth i'w wneud ac nad ydynt yn cael eu parchu yn eu cymunedau. Rydym hefyd wedi nodi bod llawer o bobl ifanc, yn ogystal ag oedolion, yn poeni am ymddygiad sydd – yn gam neu'n gymwys – yn eu barn nhw'n fygythiol neu'n 'wrth-gymdeithasol'. Mae hyn wedi taro tant gyda llawer o sefydliadau sy'n gweithio ar eu rhan.

Roeddem yn awyddus, nid yn unig i dynnu sylw at y mater hwn a gwrthwynebu safbwynt rhai arweinwyr gwleidyddol a charfannau o'r cyfryngau, ond hefyd i wneud cyfraniad adeiladol at wrthweithio'r tueddiad hwn.

Fel rhan o gyfres o gyfarfodydd gyda Phrif Gwnstabliaid Heddlu Cymru, cafodd Peter Clarke gyfarfod gyda Phrif Gwnstabl De Cymru, Barbara Wilding. Buon nhw'n trafod ffyrdd o wella pethau ac roedden nhw'n pryderu, er bod Cymru wedi datblygu nifer o strategaethau gwych a pholisïau allweddol ym maes cefnogi plant a phobl ifanc, a bod sylfeini cadarn yn cael eu gosod ar gyfer cyflwyno gwell gwasanaethau, ei bod hi'n dal yn aneglur i ba raddau roedd rhai asiantaethau'n cysylltu ag eraill i gefnogi pobl ifanc.

Cawsom adborth gan lawer o gyrff statudol a gwirfoddol yn dweud bod gwaith da yn digwydd, ond ei fod yn aml yn ynysig ac weithiau mewn cystadleuaeth uniongyrchol. Fe wnaethon ni gwrdd â nifer o Brif Weithredwyr, uwch swyddogion LICC ac ymarferwyr rheng flaen profiadol. Daeth yn amlwg bod angen dull cyfannol a chydlynus os oedd y gwaith hwn yn wir yn mynd i fod er lles plant a phobl ifanc mewn perygl. Datblygwyd y ddogfen ***Rhywun i wrando: Rhywbeth i'w wneud***, gan ymgynghorydd annibynnol. Mae'r model arfer ar gyfer ardal heddlu De Cymru a amlinellir yn y cyhoeddiad yn defnyddio'r fframwaith strategol a pholisi a bennwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac yn ymateb i'r angen am oresgyn rhwystrau i arfer da.

Nid yw ***Rhywun i wrando: Rhywbeth i'w wneud*** yn honni cynnwys yr holl atebion, ond mae'n ceisio:

- amlinellu egwyddorion allweddol dull cyfannol, aml-asiantaeth, sydd wedi'i seilio ar gyfranogiad gweithredol plant a phobl ifanc
- archwilio sut gellir integreiddio gwasanaethau cyffredinol, wedi'u targedu ac unigol er y lles mwyaf
- rhoi gwybodaeth glir ac ymarferol ar yr hyn y gellid ei wneud i gysylltu â'r plant a'r bobl ifanc sydd yn y perygl mwyaf a darparu gwasanaethau ar eu cyfer
- darparu model o arfer y gellir ei addasu i ddiwallu anghenion penodol ardaloedd lleol, boed y rheiny'n rhai trefol, cymoedd, ardaloedd gwledig neu led-wledig.

Bydd y cyhoeddiad yn adnodd defnyddiol ar gyfer llawer o'r rheiny sy'n cyflwyno gwasanaethau i blant a phobl ifanc mewn cymunedau lleol ar draws De Cymru. Mae ymarferwyr ac uwch reolwyr wedi mynegi cryn ddiddordeb ac mae tair ardal eisoes wedi dweud yr hoffent fod yn beilot i'r model arfer. Gobeithiwn y bydd hefyd yn ffynhonnell syniadau ac ysbrydoliaeth i'r rheiny sy'n gweithio mewn rhannau eraill o Gymru a ledled y DU.

> " Does dim digon o offerynau cerddorol i ddysgu arno. "

# Taclo bwlio yng Nghymru: adolygiad thematig

Nodwyd hwn fel un o dri 'phrosiect y Comisiynydd' cyfredol yn y cynllun corfforaethol, ac mae'r adolygiad hwn yn ceisio nodi bylchau a rhwystrau i weithredu mentrau a pholisïau gwrthfwlio'n effeithiol. Er ei fod yn canolbwyntio'n bennaf ar ysgolion, mae'r ymagwedd yn gyfannol ac yn ystyried materion perthnasol sy'n ymwneud â'r gymuned, diwylliant a hyd yn oed bywyd teuluol.

Trwy ein holl waith gyda phlant a phobl ifanc rydym wedi dysgu bod bwlio'n rhywbeth sy'n effeithio ar bawb, fwy neu lai, mewn rhyw ffordd. Gall plant a phobl ifanc o bob cefndir gael eu bwlio. Hyd yn oed os nad ydyn nhw'n cael eu bwlio'u hunain, mae gwybod ei fod yn digwydd yn gallu effeithio ar eu hymddygiad, eu hyder a'u gallu i deimlo'n ddiogel. Er gwaethaf polisïau gwrthfwlio a gwaith da mewn llawer o ysgolion yng Nghymru, rydym yn gwybod ei fod yn dal mewn sawl modd yn fater lle mae llawer sy'n dioddef ei effaith yn cadw'n dawel. Er bod llawer yn anfodlon ar sut mae ysgol wedi delio â'r bwlio ar ôl cael gwybod amdano, drwy beidio â'i gymryd o ddifri, rydym hefyd wedi clywed ei bod hi'n well gan blant yn aml ddelio â'r peth eu hunain ac ymdopi gyda chefnogaeth cyfoedion a staff, oherwydd pan fydd oedolion wedi cael eu cynnwys, mae pethau weithiau wedi gwaethygu.

Mae bwlio'n dal yn gyffredin iawn ac yn aml yr ysgolion sy'n delio ag ef orau yw'r rheiny sy'n agored ynghylch y ffaith ei fod yn agwedd ar ymddygiad dynol sy'n digwydd ym mhob math o gyd-destunau, gan gynnwys y cartref, y gymuned a'r gweithle. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cael ein calonogi gan waith a wnaed mewn ardaloedd awdurdodau lleol i annog ymagwedd gyfannol, a chan gynnwys ysgolion a'r gwasanaeth ieuenctid, a hyd yn oed y wasg leol, wrth hyrwyddo negeseuon cadarnhaol.



## Beth rydym ni wedi'i wneud hyd yma

Cychwynnodd Cam 1 o'r adolygiad eang yma yn 2005-06 ac roedd yn cynnwys arolwg gyda phlant a phobl ifanc; mae hyn wedi helpu i hysbysu'n gwaith ar y mater hwn. Rhoddwyd cyfle i blant a phobl ifanc, a rhai rhieni a gofalwyr, leisio barn am eu hymwybyddiaeth o bolisïau a mentrau gwrthfwlio. Rydym wedi dadansoddi'r holl dystiolaeth a gasglwyd, ac rydym bellach mewn sefyllfa i symud ymlaen yn uniongyrchol yn y gwaith gyda phlant a phobl ifanc.

Casglwyd tystiolaeth ar bapur, yn ogystal ag ymchwil, ac enghreifftiau o arfer gorau ledled Cymru, y DU, ac mewn ardaloedd y tu hwnt i hynny. Rydym wedi edrych ar wahanol agweddau neu ffurfiau ar fwlio, megis aflonyddu hiliol, bwlio homoffobig, a bwlio sy'n digwydd trwy dechnoleg newydd fel ffonau symudol a'r rhyngrwyd. Rydym wedi edrych ar y fframwaith polisi a chyfreithiol presennol ac wedi edrych ar beth mae asiantaethau a sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant neu drostynt yn eu hyrwyddo neu wedi'u llunio i atal bwlio ac ymateb iddo pan fydd yn codi. Yn anffodus, ni lwyddwyd i benodi secondai yn gydlynydd prosiect i'n helpu gyda'r gwaith pwysig hwn yn unol â'n bwriad, a hynny am resymau ariannol.

"Hoffwn i gael mwy o wersi ymarfer corff."

## Beth byddwn ni’n ei wneud nesaf

Er i waith ar fwlio barhau ar hyd y flwyddyn, roedd canlyniadau anochel yn sgîl methu â phenodi cydlynydd penodol. Yn arwyddocaol hefyd, gan fod hwn yn brosiect y mae’r Comisiynydd ei hun yn bersonol ymroddedig iddo, golygodd absenoldeb salwch Peter Clarke for rhaid addasu’r amserlen ar gyfer Cam 2.

Y camau nesaf yng Ngham 2 o’r adolygiad fydd:

- darganfod mwy am brofiad plant a phobl ifanc o fwlio trwy negeseuon testun, e-bost, blogiau a gwefannau – a beth gellir ei wneud am hynny. Bydd hyn yn digwydd trwy lawer o’n gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc
- cwrdd â grwpiau o bobl ifanc a fu’n ymwneud â mentrau i atal bwlio a gwrando arnyn nhw, a mynd ati i hyrwyddo diwylliant o wrando mewn ysgolion ar yr hyn maen nhw’n teimlo sy’n gweithio neu beidio
- dadansoddi’r holl wybodaeth sydd gennym er mwyn cynhyrchu adroddiad terfynol
- parhau i rwydweithio a dylanwadu ar waith gan gyrff a sefydliadau eraill ar y mater pwysig hwn
- sicrhau bod argymhellion yr adolygiad yn cael eu cymryd o ddifri a bod gweithredu yn ei sgîl i helpu i leihau’r achosion o fwlio mewn ysgolion a mannau eraill lle mae plant a phobl ifanc yn treulio’u hamser.

Mae ein holl gyhoeddiadau ar gael o’n swyddfeydd, neu gellir eu lawrlwytho o’n gwefan
**www.complantcymru.org.uk**

cefnogaeth
cyfartal
ffeithiau
dysgu
lleisiau
gwrando
ystyried



# Adran 3

# Cadw plant a phobl ifanc yn ganolog i'n gwaith

## Dechreuadau cynnar

O'r cychwyn cyntaf – cyn bod tîm o staff yn ei le, hyd yn oed – roedd Comisiynydd Plant Cymru'n benderfynol bod plant a phobl ifanc yn allweddol wrth bennu ei agenda a dylanwadu ar ei raglen waith. Er bod yr ymrwymiad hwn i'w weld yn glir mewn adroddiadau fel ***Codi'r clawr*** ac ***Ond mod i'n cyrraedd yn sâff***, roeddem ni am wneud yn well. Roeddem am i blant a phobl ifanc fedru dylanwadu o ddifri ar ein penderfyniadau o ran y dasg nesaf ac roeddem am sicrhau bod y pethau sy'n bwysig iddyn nhw yn wir wrth wraidd ein gwaith. Buom ni'n ymgynghori â'r plant a'r bobl ifanc ac fe wnaethon ni lunio fframwaith newydd er mwyn medru gwneud hyn mewn ffordd fwy systematig.

# Cynnwys plant a phobl ifanc yn ein gwaith

**Sut rydyn ni'n gwneud hynny...**

**Cynnwys plant a phobl ifanc yn ein gwaith a'n penderfyniadau**

- **Digwyddiadau Beth nesaf? a blaenoriaethu prosiectau'r Comisiynydd**
- **2 Grŵp ymgynghorol**
- **casglu gwybodaeth o bob agwedd ar ein gwaith**

Eleni oedd y flwyddyn gyntaf i ni weithredu'n Fframwaith newydd ar gyfer Cynnwys Plant a Phobl Ifanc. Roedd hyn yn cynnwys cynnal dau ddigwyddiad lle gallai plant a phobl ifanc ddweud beth ddylai'r blaenoriaethau fod i'r swyddfa ac yn sefydlu dau grŵp ymgynghorol o bobl ifanc sy'n cefnogi amrywiol agweddau ar ein gwaith beunyddiol.

"Mae angen mwy o amser i gael cinio a fwy o amser i chwarae."

Gan fod cynifer o wahanol fathau o faterion yn dod i'n sylw trwy wahanol agweddau ar y gwaith, roedd angen i ni sefydlu system deg a chywir fel eu bod yn medru mynegi barn ar ein dewisiadau o ran blaenoriaethau gweithredu, yn hytrach na gwneud yr holl benderfyniadau yna ein hunain. Roedd angen hefyd i ni sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfle i chwarae rhan yn ein gwaith o ddydd i ddydd a ffordd o sicrhau bod yr hyn maen nhw'n ei ddweud wrthym yn cael ei adlewyrchu'n gywir yng ngweithgaredd dylanwadol a datblygiadau polisi'r sefydliad. Roedd ein profiad blaenorol yn amlygu nad oedd modd canfod un ateb i bawb felly – ar ben y gwaith roeddem ni'n ei wneud eisoes – fe wnaethon ni ddatblygu dwy ffordd newydd o gynnwys plant a phobl ifanc a rhoi cyfle iddynt gyfranogi mewn gwahanol agweddau ar ein gwaith.



## Dylanwad uniongyrchol plant a phobl ifanc ar ein rhaglen waith

Cyflwynwyd pum thema yn y digwyddiadau blaenoriaeth neu 'Beth nesaf'?' Tynnwyd y rhain o'r holl wybodaeth a gasglwyd oddi wrth blant a phobl ifanc ac oedolion yn ystod y flwyddyn flaenorol. Roedd y materion hyn yn dod i'r amlwg o bob agwedd ar ein gwaith, gan gynnwys

gweithdai a thrafodaethau gyda phobl ifanc, cyngor a chefnogaeth a materion polisi. Mae'n bosib i sefydliadau plant, cymdeithasau proffesiynol neu gyrff eraill hefyd gyflwyno materion oedd yn destun pryder i'n sylw, ac mae'r rhain i gyd yn cael eu cynnwys wrth i ni benderfynu pa themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg.

Ar gyfer 2005-06 y pum thema a nodwyd oedd:

**(i) Chwarae a Hamdden**
Roedd plant a phobl ifanc wedi dweud wrthym eu bod heb ddim i'w wneud, nac unman i fynd yn eu hamser sbâr. Buon nhw hefyd yn sôn am barciau wedi'u fandaleiddio, diffyg cyfleusterau lleol, cael eu symud o le i le, a theimlo'n anniogel wrth dreulio amser y tu allan.

**(ii) Addysg ac Ysgolion**
Roedd gan blant a phobl ifanc lawer o bryderon ynghylch addysg a'r ysgol. Y materion allweddol oedd teimlo nad oedd neb yn gwrando arnynt ac ymateb gwael i fwlio, a oedd yn aml yn gwneud y sefyllfa'n waeth. Roedd materion eraill yn ymwneud â pheidio â derbyn adborth neu beidio â gwybod beth oedd canlyniad penderfyniadau. Y teimlad cyffredinol oedd nad oedd unrhyw beth y tu allan i'r cwricwlwm ysgol yn gweithio'n dda a bod plant a phobl ifanc yn aml yn teimlo nad oedd neb yn gwrando arnynt nac yn eu parchu.

**(iii) Iechyd emosiynol**
Codwyd materion iechyd meddwl, fel hunan-niweidio, iselder, anhwylderau bwyd, a phryder a phyliau o banig, gan blant a phobl ifanc trwy weithdai a digwyddiadau, a'r gwasanaeth cyngor a chefnogaeth. Er mai ein hymateb yn yr achosion hyn fel arfer yw cyfeirio'r plentyn neu'r person ifanc at y gwasanaeth perthnasol priodol, mae hynny'n aml wedi bod yn haws dweud na gwneud. Amlygodd hyn y diffyg gwasanaethau priodol yng Nghymru i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag unrhyw fath o anawsterau emosiynol neu iechyd meddwl.

**(iv) Cefnogaeth a gwasanaethau i blant a phobl ifanc y mae eu hangen arnynt**
Codwyd llawer o'r materion gan blant sy'n derbyn gofal a phlant a phobl ifanc anabl. Roedden nhw'n dweud nad oedd digon o wasanaethau i'w cefnogi y tu allan i'w gwasanaethau prif ffrwd.

**(v) Parch**
Roedd thema parch yn codi ym mhob un o'r pedair thema arall ac yn ystod y flwyddyn flaenorol y mater cyffredinol a godwyd amlaf oedd bod plant a phobl ifanc yn teimlo nad oeddent yn cael gwrandawiad na'u cymryd o ddifri gan oedolion a gweithwyr proffesiynol. Roedden nhw hefyd yn teimlo eu bod yn aml yn cael eu labelu'n annheg, a heb eu gweld fel aelodau cyflawn o'u cymunedau.



# Digwyddiadau Beth nesaf?

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethon ni gynnal y cyntaf o'n digwyddiadau i blant a phobl ifanc leisio barn ar flaenoriaethau'n rhaglen waith. Dyma oedd y cyntaf mewn cyfres flynyddol o weithgareddau sy'n rhan o fframwaith mwy systematig i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar flaenoriaethau'r Comisiynydd ym marn plant a phobl ifanc.

Daeth cant a hanner o blant a phobl ifanc i'r ddau ddigwyddiad fel ei gilydd. Cynhaliwyd y digwyddiad 7-11 oed yng Nghastell Bodelwyddan, a'r digwyddiad i rai dros un ar ddeg yn Stadiwm y Mileniwm. Cafodd y plant a'r bobl ifanc gyfle i archwilio pum thema yn y digwyddiadau hyn, a dynnwyd o bob agwedd ar waith y Comisiynydd, ac wedyn blaenoriaethu'r ddwy thema roedden nhw'n teimlo y dylem ni ganolbwyntio fwyaf arnynt. Bwriad y digwyddiadau yw bod mor gynhwysol a hygyrch (a difyr) â phosib, a dyrannir lleoedd trwy ysgolion, sefydliadau a phrosiectau ledled Cymru. Dywedir wrth y sefydliadau hynny fod croeso arbennig i geisiadau gan bobl ifanc anabl, pobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol, teithwyr, pobl ifanc ddigartref, y rheiny sy'n derbyn gofal neu sydd wedi gadael gofal yn ddiweddar, troseddwyr ifanc a grwpiau eraill ar y cyrion. Ond does dim angen i ni wybod am eu cefndir oni bai bod angen i ni ddiwallu'u hanghenion i'w helpu i gyfranogi. Nid dod i siarad am eu hamgylchiadau eu hunain y byddan nhw, nac i gynrychioli buddiannau grŵp penodol, ond mae'n bwysig bod y rheiny sy'n cymryd rhan yn adlewyrchu cefndir a phrofiadau bywyd amrywiol plant a phobl ifanc Cymru.

"Dwi'n hoffi chwarae gyda fy ffrindiau ac yn chwarae pel droed ar ddydd Sadwrn."

At ei gilydd cyfrannodd dros 1,000 o blant a phobl ifanc at y broses bleidleisio, a gynhaliwyd hefyd yn ein gweithdai eraill, mewn digwyddiadau megis Eisteddfod yr Urdd a'r Genedlaethol, a thrwy Atebnôl a'n gwefan. Y ddau fater a ddewiswyd oedd Chwarae a Hamdden ac Addysg ac Ysgolion. Mae'r rhain yn awr yn cael eu datblygu fel Prosiectau i'r Comisiynydd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

## Grwpiau ymgynghorol

Sefydlwyd dau grŵp ymgynghorol newydd a'u datblygu eleni. Wedi'u lleoli o amgylch y ddwy swyddfa, gyda'r aelodau'n cael eu recriwtio trwy fforymau ieuenctid presennol o bob ardal awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod pobl ifanc o bob rhan o Gymru'n cael eu cynnwys, datblygwyd y grwpiau hyn i weithredu fel ymgynghorwyr. Eu swyddogaeth yw dylanwadu ar ein polisïau a'n gweithdrefnau a darparu mewnbwn iddyn nhw, ein cyhoeddiadau, ein recriwtio, ein dulliau gwaith, trefnu'r digwyddiadau Beth nesaf? a'n hamgylchedd ffisegol. Nid y grwpiau ymgynghorol sy'n penderfynu ar raglen waith y Comisiynydd Plant a'i dîm, ond maen nhw yn cyfrannu at nodi'r materion a gynigiwyd ar gyfer y broses 'Beth nesaf?' a hefyd at gynllunio a chynnal y digwyddiadau.

Bu aelodau o'r grwpiau ymgynghorol yn ymwneud â recriwtio 13 aelod newydd o staff yn ystod y flwyddyn ac maent wedi bod wrthi'n datblygu eu cylch gorchwyl eu hunain a'u ffyrdd o weithio gyda chefnogaeth y staff Cyfathrebu a Chyfranogiad.

# Aelodau'r grwpiau ymgynghorol

Yn ystod y flwyddyn bu'n bleser cyd-weithio gyda'r bobl ifanc canlynol:

**Gogledd Cymru (yn cynnwys dirprwyon)**

Aaron
Alaw
Beth
Carwyn
Ceindeg-Fflur
Chloe
Debbie
Katie
Katie
Kirsty
Mark
Maurice
Ryan
Susannah

**De Cymru (yn cynnwys dirprwyon)**

Adelle
Anasse
Angharad
Ben
Billie
Cameron
Cara
Cerys
Elaine
Ethan
Georgia
Hannah
Jessica
Kyle
Laura
Lexie
Mary
Matthew
Mitchell
Paige
Robert
Sophie

cefnogaeth
cyfartal
ffeithiau
dysgu
lleisiau
gwrando
ystyried

## Myfyrio ar gael cyfweliad gan blant a phobl ifanc

Pan ges i'r llythyr yn fy ngwahodd am gyfweliad i fod yn Swyddog Polisi i Gomisiynydd Plant Cymru, roeddwn i'n falch o weld y byddai pobl ifanc yn rhan o'r panel cyfweld. Serch hynny, doeddwn i ddim yn siwr pa fath o brofiad bydde fe – nac os fyddwn i'n medru ateb eu cwestiynau.

Ar ddiwrnod y cyfweliad roedd yn bleser cael fy nghyfweld gan y panel, a oedd yn cynnwys 2 berson ifanc o Grŵp Ymgynghorol De Cymru. Rwy'n gwybod bellach fod pawb ar y panel wedi gweithio ar y cwestiynau gyda'i gilydd, ond fe ges fod eu cwestiynau'n ddiddorol ac yn heriol iawn. Cefais mod i'n canolbwyntio mwy ar esbonio fy hun yn glir ac osgoi defnyddio jargon. A dweud y gwir, roedd gwneud hynny'n eitha anodd mewn cyfweliad.

Fe wnes i fwynhau'r profiad yn fawr ac rwy'n sicr yn gobeithio y bydd sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn dilyn yr esiampl hon.

Gareth

## … … a sut oedd hi i fod ar y panel ….

Dyma'r tro cyntaf i fi fod yn rhan o broses recriwtio, ond roeddwn i ar y panel ar gyfer tri o'r swyddi, felly mae gen i gryn dipyn o brofiad erbyn hyn. Roedd yr hyfforddiant yn dda iawn a dysgon ni sut i ofyn cwestiynau clir, sut i drin pawb yn deg ac yn ddiduedd. Gwnes i wir fwynhau'r profiad a theimlaf fod fy marn yn cyfri. Y cyfweliadau eu hunain oedd y darn gorau, er mod i wedi ffeindio gwerthuso sut wnaeth y bobl wahanol yn anodd ar adegau.

Dwi'n barod yn edrych ymlaen at fod yn rhan o recriwtio eto. Doedd e ddim cymaint ei fod e'n waith caled, ond roedd yn sialens, sy'n rhywbeth dwi wastad yn mwynhau. Teimlaf ein bod ni i gyd wedi cyd-weithio ac roeddwn i yn bendant yn rhan o'r penderfyniadau gymerwyd.

Cerys

# Cynnal deialog gyda phlant a phobl ifanc

**Sut rydyn ni'n gwneud hynny…**
**Cyfathrebu a hyrwyddo cyfranogiad**

- ymweliadau
- gweithdai
- rhaglen wedi'i thargedu – grwpiau hawdd eu niweidio, ar y cyrion ac anodd eu cyrraedd
- mynd i ddigwyddiadau
- cynyddu ymwybyddiaeth oedolion a'u hyfforddi
- llysgenhadon ysgol
- Atebnôl – ein cylch e-bost
- gwefan
- cyfryngau a gwaith hyrwyddo

## Estyn allan i bob plentyn a pherson ifanc

Drwy ymweld ag ysgolion a grwpiau o bobl ifanc yn rheolaidd, siarad mewn cynadleddau a mynd i ddigwyddiadau, mae Peter Clarke yn sicrhau ei fod yn medru gwybod am y materion diweddaraf sydd o bwys i blant a phobl ifanc ac sy'n effeithio ar eu bywydau ar y pryd. Trwy'r gwasanaeth cyngor a chefnogaeth a chysylltiadau â sefydliadau a chyrff allanol mae hefyd yn casglu mwy o wybodaeth am faterion sy'n destun pryder arbennig.

Ond mae sicrhau ei fod yn casglu'r wybodaeth honno oddi wrth HOLL blant a phobl ifanc Cymru'n dasg anodd, ac er bod y gwaith o gynnwys plant a phobl ifanc a chynnal deialog gyda nhw wedi bod ar waith ers cryn amser, bwriad y rhaglenni o ymweliadau a gweithdai yw sicrhau ein bod yn ymdrechu'n systematig i gyrraedd pawb.

Yn ogystal ag ymweliadau ag ysgolion, grwpiau ieuenctid a fforymau, mae gennym raglen waith systematig wedi'i thargedu at blant a phobl ifanc sydd ar y cyrion, yn hawdd eu niweidio neu'n 'anodd eu cyrraedd'. O ystyried yr ardal ddaearyddol eang a'r amrywiaeth eang o grwpiau dan sylw mae hyn yn golygu gweithio ochr yn ochr â sefydliadau eraill ac mae'n ymrwymiad hir dymor. Drwy sicrhau bod llinynnau neu weithgareddau gwahanol yn cyfrannu at y rhaglen hon, ein nod yw sicrhau deialog gytbwys a chynhwysol, gan sicrhau bod y rheiny sy'n aml heb lais yn medru dweud eu barn. Mewn cydnabyddiaeth o werth y math hwn o waith rydym yn gobeithio sicrhau arian i gyflogi mwy o staff Cyfathrebu a Chyfranogiad yn y blynyddoedd nesaf, er mwyn cyflawni'r dasg sylweddol a phwysig hon yn fwy effeithiol a rhoi'r gair ar led.



"Mae ysgol yn le gwych i weld eich ffrindiau. Mae'n hwyl gwneud ffrindinau newydd!"

## Llysgenhadon ysgol

Mae'r fenter llysgenhadon ysgol yn un enghraifft o sut mae'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth a gwella sianeli cyfathrebu gyda thîm y Comisiynydd ynghlwm wrth hyrwyddo Confensiwn y CU. Yn ogystal â nodi dau ddisgybl mewn ysgol gynradd fel prif bwyntiau cyswllt i ni o fewn yr ysgol, mae'r cynllun yn annog ac yn cefnogi creu amgylchedd lle ceir ymwybyddiaeth o hawliau ac mae'n grymuso ac yn cefnogi Llysgenhadon i ddatblygu prosiectau sy'n arbennig o berthnasol i'w hysgol. Yn amlwg bydd yr hwb ychwanegol a roddir i greu cynghorau ysgol drwy eu gwneud yn orfodol yn cynyddu'r potensial ar gyfer cysylltiadau rhwng Llysgenhadon a'u cynghorau ysgol, yn ogystal â rhwng y Comisiynydd Plant a'r strwythurau eraill newydd ar gyfer cyfrannu a chwarae rhan.

Yn dilyn peilot Llysgenhadon Ysgol 2004-2005, rydym yn paratoi ar gyfer cam nesaf y cynllun. Mae pecyn offer y Llysgenhadon Ysgol yn cael ei ailddatblygu ar sail adborth y gwerthusiad peilot yn 2005. Rydym hefyd yn ymwybodol, heb y cynnydd a gynlluniwyd yn wreiddiol yn y staff cyfranogiad, bod angen i'r pecyn offer ddarparu adnoddau digonol i lysgenhadon a'u hathrawon cyswllt ddatblygu'r fenter heb y lefel uniongyrchol o gefnogaeth a gynhwyswyd yn y cynllun yn wreiddiol.

Mae'r pecyn offer yn awr yn cynnwys mwy o adnoddau ac adran ar werthuso i helpu'r Llysgenhadon wrth eu gwaith. Mae pecyn offer i athrawon hefyd yn cael ei ddatblygu, sy'n cynnwys gwybodaeth gyfatebol i flwch offer y Llysgenhadon, yn ogystal â nodiadau ychwanegol i roi arweiniad i athrawon a dangos y cysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

## Gwella Atebnôl

Mae gweithgor o blant a phobl lifanc wedi bod yn edrych ar sut gall menter Atebnôl – grŵp arolwg e-bost – gael ei wella er mwyn bod yn offeryn cyfathrebu mwy effeithiol; ar gyfer plant a phobl ifanc ac ar gyfer swyddfa'r Comisiynydd Plant. Mae'r grŵp wedi bod yn ymateb i feysydd megis sut mae cynyddu'r aelodaeth, sut mae sicrhau bod y negeseuon a dderbynnir gan blant a phobl ifanc yn cael eu defnyddio'n fwyaf effeithiol, a sut mae sicrhau bod y fenter yn canolbwyntio mwy ar blant a phobl ifanc.

## Cyfle cyfartal

Mae'n hanfodol bod tîm y Comisiynydd Plant yn hygyrch ac yn groesawgar i holl blant Cymru, yn dathlu amrywiaeth, ac yn cofleidio arfer gwrth-ormesol. Rydym yn ymroddedig i weithio tuag at hyn. Yn aml bydd hyn yn golygu gweithio gyda'r rheiny sydd â phrofiad mewn rhai dulliau cyfathrebu neu mewn gwaith uniongyrchol gyda grŵp penodol o blant a phobl ifanc.

> "Dydw i ddim yn meddwl bod pethau'n rhy ddrud neu'n rhy bell i ffwrdd. Mae parc llawr y ffordd a mae llawer o bobl i chwarae gyda ar y stryd."







## Cynllun iaith Gymraeg

Mae tua hanner y tîm o staff yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg, tra bod sawl aelod arall o staff eisoes yn medru rhywfaint o'r iaith Gymraeg neu'n mynd ati i'w dysgu. Rydym yn ffodus bod pob maes gwaith arbenigol yn cynnwys o leiaf un aelod o staff sy'n medru darparu gwasanaeth a chyfathrebu yn Gymraeg. Cwblhawyd y gwaith ar ein Cynllun Iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn, ac mae bellach wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith. Bydd Grwpiau Ymgynghorol y Bobl Ifanc yn helpu i ddatblygu cynllun i roi cyhoeddusrwydd a hyrwyddo'r cynllun ymhlith y cyhoedd – a phlant a phobl ifanc yn arbennig. Cysylltwch â'n swyddfeydd am gopi o'r cynllun, neu lawrlwythwch un o'n gwefan.

> "Mae'r athrawon yn fy ysgol i yn esbonio pethau'n dda iawn."

# Ymchwil werthuso: i ba raddau rydyn ni'n llwyddo?

Mae cynnwys plant a phobl ifanc wrth werthuso ac adolygu'r gwasanaethau maent yn eu derbyn yn rhywbeth rydym yn rheolaidd yn annog sefydliadau eraill i'w wneud. Mae'r angen am yr ymagwedd hon yr un mor wir yn achos ein sefydliad ni ag i unrhyw sefydliad neu wasanaeth arall i blant yng Nghymru. O ganlyniad, comisiynwyd tîm o Brifysgol Abertawe i adolygu a gwerthuso effeithiolrwydd y swyddfa, ac i gynnwys plant a phobl ifanc a gweithio gyda nhw'n uniongyrchol yn y broses.

Mae hon yn astudiaeth hir dymor, gydag adroddiad i ymddangos yn 2008. Mae'r tîm ymchwil wedi treulio amser gyda'r staff, wedi mynd i'r digwyddiadau i blant a phobl ifanc, wedi cwrdd â'r Grwpiau Ymgynghorol ac wedi arsylwi'n gwaith. Maen nhw hefyd yn cynnal arolwg ac yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ledled Cymru. Bydd yr ymchwil werthuso'n amhrisiadwy ar gyfer Comisiynydd Plant nesaf Cymru ac ar gyfer y tîm cyfan wrth ddatblygu a llunio'n gwaith.



# Rhoi'r gair ar led a chodi llais ar ran plant a phobl ifanc

Mae cyflwyno'r neges yn uchel ac yn eglur yn hanfodol os yw pencampwr plant i fod yn effeithiol. Mae gan holl aelodau tîm y Comisiynydd ran i'w chwarae wrth hyrwyddo'n gwaith a'r hyn rydym yn sefyll drosto. Mae gennym daflenni a phecynnau am ddim, ac rydym yn defnyddio gwahanol ffyrdd o sôn wrth bobl am ein gwaith. Weithiau rydym yn defnyddio posteri bach neu fersiynau pobl ifanc o'n hadroddiadau. Weithiau rydym yn cynnal gweithdai neu seminarau neu'n rhoi anerchiadau neu gyflwyniadau i egluro'n canfyddiadau a'r hyn rydyn ni'n teimlo ddylai newid.

Mae angen i blant a phobl ifanc dderbyn adborth ar ein hymateb i'r wybodaeth maen nhw'n ei rhoi i ni ac mae angen i ni sicrhau bod llunwyr polisi a'r rheiny sy'n gallu gwneud gwahaniaeth yn gwybod am safbwyntiau ac argymhellion y Comisiynydd. Rydym bob amser yn ceisio adlewyrchu'r hyn mae plant a phobl ifanc wedi'i ddweud wrthym – nid dim ond yr hyn rydyn ni'n teimlo fyddai o'r lles mwyaf iddyn nhw.

Drwy roi cyfweliadau i bapurau newydd cenedlaethol, lleol ac i'r DU gyfan, cylchgronau, cyfnodolion, a rhaglenni teledu a radio, rydym yn ceisio cyrraedd cynifer o bobl â phosib. Rydym yn derbyn digon o ymholiadau gan y cyfryngau, ac er ein bod yn cyflwyno datganiadau i'r wasg, mae'r rhan fwyaf o gyfleoedd yn y cyfryngau'n tarddu o ddatblygiadau allanol, felly mae'n rhaid i ni ymateb.




# Adran 4

## Ein rhaglen waith at y dyfodol

"Bydde ysgol yn well petai'r pynciau fwy o hwyl fel ein bod yn gallu ymlacio mwy a chanolbwyntio'n well yn y gwersi."

# Beth sydd nesaf?

Yn ogystal â'r gweithgareddau newydd a restrwyd yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn a dal i weithio ar elfennau parhaus ein rhaglen waith, yr agweddau allweddol fydd:

- parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o swyddfa'r Comisiynydd ac UNCRC trwy bob agwedd ar ein gwaith
- lansio gwasanaeth rhadffon i'w gwneud hi'n haws i blant a phobl ifanc ledled Cymru gael gafael ar y Comisiynydd Plant
- darparu gwasanaeth cyngor a chefnogaeth o ansawdd uchel
- ymchwilio i achosion cymhleth a chynnal adolygiadau ymchwiliol
- cynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth cyngor a chefnogaeth, yn enwedig gyda phlant a phobl ifanc ifanc ledled Cymru, gan gychwyn gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, wedi'u gwahardd o'r ysgol neu yn y carchar
- ail-lansio'r rhaglen llysgenhadon ysgol ddiwygiedig er mwyn recriwtio Llysgenhadon yn raddol mewn ysgolion cynradd ym mhob rhan o Gymru
- cynyddu ymhellach ran plant a phobl ifanc yn y broses gynllunio ac wrth bennu blaenoriaethau fel rhan o'n rhaglen waith at y dyfodol
- lansio menter Atebnôl newydd a gwell
- parhau i fonitro gweithrediad yr argymhellion a wnaed yn ein hadroddiadau
- cwblhau gwaith ar yr adolygiad thematig o fwlio
- creu cysylltiadau cryfach gyda phartneriaethau fframwaith plant a phobl ifanc
- parhau i wrando a dysgu, hybu arfer da a chodi llais dros blant a phobl ifanc Cymru
- cyfrannu at waith cydlynus yng nghyswllt mecanwaith cofnodi UNCRC
- monitro, adolygu ac ymateb i ymgynghoriadau, a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael llais yn y materion sy'n effeithio arnyn nhw
- ymgymryd â dau brosiect penodol i'r Comisiynydd – a nodwyd gan blant a phobl ifanc – o fewn themâu Chwarae a Hamdden ac Addysg ac Ysgolion.



Bydd y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn ddilynol a fydd yn cychwyn yn Ebrill 2007 yn naturiol yn cynnwys cynnal a datblygu ymhellach yr amrywiol agweddau ar ein gwaith a'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu. Fel bob amser, byddwn yn darparu ar gyfer cyfraniad plant a phobl ifanc i'n blaenoriaethau a'u dylanwad ar sut y byddwn yn cyflawni peth o'r gwaith rydym eisoes wedi ymrwymo i'w wneud.



# Adran 5

## … beth rydyn ni'n teimlo bod angen ei wneud …

### Adolygiad y Comisiynydd Plant o faterion perthnasol i hawliau a lles plant yng Nghymru

Mewn blynyddoedd blaenorol mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol wedi codi materion newydd sy'n destun pryder i mi ac wedyn wedi dychwelyd at faterion a godwyd mewn blynyddoedd blaenorol lle mae'r cynnydd naill ai wedi bod yn wych neu'n anfoddhaol. Mae'n fy ngwneud yn eitha anniddig fy mod wedi gorfod newid hynny eleni. Mae sawl un o'r materion allweddol a amlygwyd mewn blynyddoedd blaenorol – y mae rhai ohonynt yn ymwneud â systemau a phrosesau sylfaenol sydd i fod i roi llais i blant a phobl ifanc hawdd eu niweidio – yn rhai cyfarwydd. Mae adroddiadau ymchwiliadau, gan gynnwys rhai Waterhouse a Carlile, wedi tynnu sylw at yr angen am weithredu ac am adnoddau a gwasanaethau o ansawdd. Mae'n destun pryder difrifol felly bod rhaid i mi ddychwelyd at rai materion sy'n dal i achosi pryder er gwaethaf fy argymhellion innau, ac eraill, ar gyfer gwelliant.

# Gwasanaethau eiriolaeth annibynnol

Yn fy adroddiad, ***Datgan Pryderon***, fe wnes i gyflwyno argymhellion oedd yn ymateb i ofynion allweddol strategaeth genedlaethol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc, yn fy marn i. Rwy'n teimlo bod sefydlu uned eiriolaeth genedlaethol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, i fonitro a chynghori ar ddarparu safonau eiriolaeth cyson ar gyfer plant ledled Cymru, yn hanfodol. Diben eiriolaeth wrth gwrs yw galluogi plant a phobl ifanc i fod yn rhan o benderfyniadau am eu bywydau a rhoi cefnogaeth briodol ar adegau sy'n arbennig o anodd – er enghraifft pan fydd ganddynt bryderon difrifol neu pan fyddant am gwyno ynghylch agwedd ar eu gofal. Dylai eiriolaeth fod ar gael i bob plentyn sydd am gwyno ynghylch unrhyw wasanaeth awdurdod lleol; dylai darparwyr eiriolaeth fedru gweithredu'n annibynnol ac ar ran y plentyn maen nhw'n ei gynrychioli yn ddieithriad. Rhaid i eiriolaeth o'r fath hefyd fod ar gael yn hwylus i blant a phobl ifanc, ble bynnag maen nhw'n byw.

Pan gyhoeddodd ***Datgan Pryderon***, dywedodd Llywodraeth Cynulliad Cymru eu bod yn derbyn yr holl argymhellion. Elfennau allweddol yn yr adroddiad oedd y dylid sicrhau uned eiriolaeth ganolog fel bod gwasanaeth gyda digon o adnoddau a oedd yn annibynnol, yn gyson ac o ansawdd sicr ar gyfer plant. Gwnaed yr argymhelliad hwn gyda'r bwriad o ymateb i lawer o'r pryderon hir dymor a chyson ynghylch sut comisiynir y ddarpariaeth a sut caiff ei thrin ar hyn o bryd, gyda darparwyr yn newid yn aml a phobl ifanc yn aml yn cael eu hamddifadu o gyfle i ddatblygu perthynas o ymddiriedaeth gydag oedolyn sy'n eu cynrychioli. Mae ansefydlogrwydd felly'n amharu, yn enwedig pan fyddwn yn ystyried hawliau a lles plant a phobl ifanc a all fod yn hawdd iawn eu niweidio ac sydd wedi cael perthynas hynod negyddol gydag oedolion yn y gorffennol.



Serch hynny, rwyf wedi cael fy siomi'n fawr gan y datblygiadau ers hynny. Yn nodedig, nid yw'r arweiniad drafft diweddar yn sôn am Uned Eiriolaeth o gwbl, ac mae gennyf bryderon difrifol am y model a gynigiwyd. Nid wyf wedi fy argymhoeddi felly y bydd y gwasanaethau hyn yn well na'r rhai sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd. Mae'n ymddangos bod y ddogfen yn closio at fodel ar gyfer comisiynwyr, yn hytrach na cheisio diwallu anghenion eiriolaeth plant a phobl ifanc.

Mae'r un mor siomedig nad yw'r drafft yn sôn o gwbl am yr adroddiad ar fy ail adolygiad o eiriolaeth, datgelu camarfer a threfniadau cwynion, ***Dydy plant ddim yn cwyno***…, a edrychodd ar awdurdodau addysg lleol. Mae'r adroddiad hwn yn argymell estyn gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc a all ddymuno cwyno am y gwasanaethau addysg. Mae'r canllawiau drafft yn aneglur ynghylch a fyddai gwasanaethau eiriolaeth ar gael o dan yr amgylchiadau hyn.

Rwy'n credu bod cyfle hollbwysig i wella ac estyn eiriolaeth i blant – i roi llais y mae ganddynt hawl iddo iddynt – wedi cael ei golli. Ar adeg ysgrifennu rwy'n ystyried yn ofalus defnyddio'r pwerau cyfreithiol sydd ar gael i mi i adolygu sut mae LlCC yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant. Mae'n drist fy mod mewn sefyllfa lle rwy'n teimlo bod angen defnyddio'r pwerau hyn yng nghyswllt y sefydliad a greodd fy swydd fel rhan o'i ymateb i'r angen a nodwyd yn Adroddiad Waterhouse am roi llais i blant a phobl ifanc.

# Rhoi argymhellion Clywch ar waith a chefnogaeth gwnsela

At ei gilydd rwyf wedi bod yn falch o weld mwyafrif y 31 o argymhellion a wnaed yn adroddiad Clywch yn cael eu rhoi ar waith – rhai ohonynt yn fuan iawn ar ôl ei gyhoeddi. Rwyf wedi'm bodloni y bydd hyn wedi cyfrannu rhywfaint at wella mesurau diogelu i'n plant ysgol. Serch hynny, mae'r cynnydd ar ambell un o'r argymhellion allweddol wedi bod yn arafach nag y byddwn wedi hoffi ac mae'r camau terfynol y mae eu hangen i roi polisïau ar waith yn dal heb eu cyflawni. Mae'r ymatebion a dderbyniwyd gan awdurdodau addysg lleol a Phwyllgorau Amddiffyn Plant yr Ardaloedd ledled Cymru wedi bod yn galonogol, gan fod y mwyafrif wedi rhoi argymhellion perthnasol ar waith. Ar ben hynny mae Cyd-bwyllgor Addysg Cymru, y cyfryngau a sefydliadau eraill wedi derbyn yr argymhellion sy'n berthnasol iddynt hwythau.

Serch hynny, rydym yn dal i ddisgwyl cyhoeddi nifer o ddogfennau allweddol penodol yng nghyd-destun argymhellion a gyfeiriwyd at Lywodraeth Cynulliad Cymru. Er fy mod yn deall bod rhai camau nesaf arwyddocaol wedi'u cymryd yng nghyswllt y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cwnsela Plant mewn Ysgolion, mae'n drueni mawr bod y datblygiadau hyn wedi cymryd cyhyd. Mae'r diffyg cynnydd hwn yn fy synnu a'm siomi, yn enwedig o ystyried yr ymrwymiad cyhoeddus cadarn i welliant a wnaed gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r Gweinidog dros Blant pan gyhoeddwyd Adroddiad Clywch, ac yn y cyfnod wedi hynny.

Rwy'n ystyried yr argymhelliad a wnaed ynghylch datblygu strategaeth gwnsela ar gyfer ysoglion yng Nghymru fel un a fyddai wedi cael effaith amlwg ar fywydau plant a phobl ifanc o fewn cyfnod cymharol fyr. Rwyf yn pryderu gymaint am yr oedi wrth gwblhau'r gwaith paratoi, datblygu'r strategaeth a'r gwir fanteision i ddisgyblion fel fy mod wedi penderfynu gwneud cyfraniad personol i'r gweithgor sy'n symud y materion hyn ymlaen. Er bod mynediad i gwnsela mewn ysgolion yn ddatblygiad cymharol newydd o bosib, nid yw'n rhywbeth hollol ddieithr. Mae'n siomedig na wnaeth LICC yn fawr o'r ymchwil a'r dystiolaeth oedd eisoes ar gael yn eu dogfen gwmpasu. Mae hwn yn gyfle i fod yn flaengar a meddwl yn ysbrydoledig. Byddai cael rhywun i droi atynt wedi gwneud cymaint o wahaniaeth i fywydau nid yn unig y bobl ifanc a gafodd eu cam-drin gan y diweddar John Owen, ond hefyd i'r dioddefwyr y clywsom eu hanesion mewn llawer o ymchwiliadau eraill. Rwy'n annog LICC yn gryf i sicrhau bod rhoi'r argymhelliad hwn ar waith yn flaenoriaeth.

" Mae yna bobl yn fy ardal i sydd ddim yn bobl da felly dydy fy rhieni ddim yn gadael i ni fynd allan ambell waith. "



# Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) a gwasanaethau iechyd eraill i blant a phobl ifanc

Rwyf wedi gwneud sylwadau o'r blaen am ariannu CAMHS ac mae wedi dod yn eglur bod y gwasanaethau a ddarperir ar draws Cymru'n aml yn anghyfartal, ac felly na all llawer o blant gael mynediad i'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt. Fel y soniwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, mae fy swyddfa'n parhau i ddelio â materion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc. Mae'n eglur bod angen i mi bryderu ynghych diffyg cefnogaeth ariannol i strategaeth LlCC. Yn wir, mae'n ymddangos nad oes fawr ddim wedi newid ers i mi dynnu sylw at y mater hwn ddiwethaf.



" Byddai mwy o bapur tŷ bach yn gwneud fy addysg i yn well. "

Hyd yma mae'r arian a ddarparwyd wedi bod yn annigonol i ddatblygu'r cynigion strategol a chyflwyno gwasanaeth a amlinellwyd yn Busnes Pawb a'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol i Blant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth (FfGC Plant). Nid yw'r cynnydd cymharol fach yn y cyllid ond wedi ymateb i gyfran fechan iawn o'r angen. Carwn atgoffa LlCC i'r grŵp gweithredu CAMHS amcangyfrif y byddai angen £10m ychwanegol y flwyddyn ar gyfer tair blynedd cyntaf cyflawni'r strategaeth a amlinellwyd yn Busnes Pawb. Er gwaethaf yr ymrwymiad a wnaed yn y ddogfen honno ac yn y FfGC Plant, mae'r ddarpariaeth CAMHS yn wynebu argyfwng ar draws Cymru.

Mae fy ngwasanaeth cyngor a chefnogaeth wedi ymwneud ag amrywiaeth o achosion sydd wedi cadarnhau nad oes gan Gymru ddigon o welyau mewn ysbytai i bobl ifanc. Mewn cyfnod o bythefnos deliodd y gwasanaeth â thri achos – dau berson ifanc ag anhwylderau bwyd ac un lle'r oedd hunan-niweidio – lle gwrthododd Comisiwn Iechyd Cymru ariannu'r lleoliadau oedd yn briodol ar gyfer eu hanghenion ym marn gweithwyr proffesiynol CAMHS. Mae pobl ifanc sydd mewn angen difrifol am driniaeth arbenigol yn gorfod disgwyl am wythnosau cyn cael eu derbyn i'r ysbyty. Mae pobl ifanc hefyd yn cael eu trin ar wardiau iechyd meddwl i oedolion, nad ydynt yn gyfarwydd â darparu gofal i bobl o'r oedran yma, a lle gall y profiadau fod yn frawychus ac yn niweidiol i bobl ifanc. Trwy'r gwasanaeth cyngor a chefnogaeth rwyf hefyd wedi dod yn ymwybodol i'r unig wely ar gyfer CAHMS yng Ngorllewin Cymru gael ei gau gan yr ymddiriedolaeth heb ymgynghori.

Yn ystod y flwyddyn mae fy nhîm wedi cael cryn dipyn o gyswllt gyda gweithwyr iechyd proffesiynol. Rwy'n ymwybodol bod peth arfer blaengar a da ar waith ac roeddem yn falch bod llawer o leoliadau iechyd bellach yn cydnabod hawliau a lles plant i raddau mwy. Serch hynny, mae gweithwyr proffesiynol wedi mynegi cryn bryder ynghylch y diffyg ariannu ar gyfer llawer o'r datblygiadau newydd yn y gwasanaeth iechyd i blant a phobl ifanc.

Er enghraifft, rydym yn ymwybodol o brosiectau sy'n ceisio mynd i'r afael â hunan-niweidio a 'niwed cudd'. Prosiectau tymor byr yw'r rhain na fydd o bosib yn parhau am fwy na

rhai blynyddoedd, ac sy'n cael eu hariannu mewn rhai achosion gan arian y Loteri. Rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddod â'r sefyllfa hon i ben, lle mae gwasanaethau pwysig yn cael eu cynnal ag arian tymor byr. Mae'r FfGC Plant wedi codi disgwyliadau, ond nid yw wedi derbyn digon o adnoddau i gyflawni ei holl dargedau.

Mae gwahaniaethau sylweddol o ran cyfarwyddyd ac ariannu ar gyfer iechyd plant o'i gymharu â iechyd oedolion. Mae gweithwyr proffesiynol yn dweud wrthym fod canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru'n anghyflawn ac nad yw'r ariannu ar gyfer newidiadau i wasanaethau oedolion ar gael ar gyfer gwasanaethau plant. Testun pryder pellach i weithwyr proffesiynol yw bod llawer o anghenion plant yn cael eu nodi, ond nad oes modd ar gael i'w diwallu, ac mae'r fformwlâu ariannu cyfredol yn cynyddu'r anghydraddoldeb yn y gwasanaethau a ddarperir.

Nid yw'r holl dargedau a amlygwyd yn y FfGC Plant ac a oedd i'w rhoi ar waith erbyn mis Mawrth eleni wedi'u cyflawni. Fodd bynnag, yn hytrach na chadarnhau ymrwymiad i gyflawni'r targedau a bennwyd gan LICC yn eu Dogfen Wasanaeth a Fframwaith Ariannol (y SAFF), mae'r targedau hynny yn awr wedi cael eu gollwng o'r flwyddyn ariannol nesaf. Yn wir, nid yw'r SAFF yn cynnwys targedau o gwbl ar gyfer cyflawni'r safonau a nodwyd yn y FfGC Plant. Nid wyf yn sicr sut yn union y gellir rhoi'r rhain ar waith heb ymrwymiad ariannol.

" Does dim byd yn fy ardal yn ddigon rhad nac yn agos, fel parc. "

## Tlodi plant

Er y gwelwyd peth gwelliant yn yr ystadegau tlodi plant yng Nghymru ers i mi amlygu'r mater gyntaf yn fy adroddiadau blynyddol, mae'n ymddangos yn glir bod tlodi parhaus yng Nghymru'n anodd ei ddatrys. Rwy'n falch bod y pleidiau gwleidyddol wedi ymrwymo i daclo tlodi plant a theuluoedd ac nad yw'r mater yn llithro oddi ar yr agenda wrth baratoi ar gyfer etholiadau'r Cynulliad. Rwyf wedi parhau i fonitro'r cynnydd cyson a wneir ar lefel genedlaethol a thrwy Rwydwaith Atal Tlodi Plant Cymru rwyf hefyd wedi gallu cael gwybod am y datblygiadau diweddaraf yn gynnar.

Mae angen pwysleisio rôl llywodraethau cenedlaethol wrth ddelio â'r mater hwn, ond nid yw bob amser yn arwain ar unwaith at leddfu effaith tlodi ar fywyd plentyn. Mae'n ddefnyddiol ystyried ein rôl ni i gyd, yn enwedig fel darparwyr gwasanaeth, wrth leihau anghydraddoldeb a'r stigma sy'n gysylltiedig â thlodi plant. Gall ysgolion ac addysg ddylanwadu'n fawr yn y cyd-destun hwn, ac eto ymddengys nad yw addysg y wladwriaeth, hyd yn oed, ar gael am ddim o bell ffordd.

Yn ôl amcangyfrif ffigurau a gyhoeddwyd gan ECPN Cymru bydd costau ychwanegol o ryw £14,000 y plentyn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae rhai o'r costau hyn yn guddiedig, ond maent yn cynnwys nid yn unig costau gwisg ysgol, offer chwaraeon a theithiau ysgol, ond hefyd gostau defnyddio cyfrifiadur a'r rhyngrwyd. Nid pethau moethus neu ychwanegol yw llawer o'r costau hyn, ond pethau sy'n hanfodol os yw plant i wneud yn fawr o'u hamser yn yr ysgol.

Mae addysg yn cynnig cyfle i ddysgu, i wneud ffrindiau ac i gyflawni eu potensial i blant a phol ifanc, a gall helpu y rheiny sy'n byw mewn tlodi i oresgyn llawer o'r heriau sy'n eu hwynebu. Mae'n destun pryder cynyddol bod hyd yn oed addysg y wladwriaeth yn gosod pwysau ariannol ychwanegol ar deuluoedd sydd eisoes yn cael trafferth cadw dau ben llinyn ynghyd. Mae'n annerbyniol bod gorfod talu'n sylweddol am bethau sy'n angenrheidiol i gyflawni ym myd addysg yn rhoi llawer o bobl ifanc o dan anfantais ddifrifol mewn system lle maent i fod i gael eu trin yn gyfartal. Rwy'n annog pawb yn y maes hwn – ar lefel ysgol, awdurdod lleol a chenedlaethol – i ystyried beth gallant ei wneud i unioni'r anghydraddoldeb yma.



## Gwasanaethau i bobl ifanc ag ymddygiad rhywiol niweidiol

Mae rhai materion na fyddant byth yn ennill pleidleisiau, ond nid yw diffyg cefnogaeth boblogaidd iddynt yn golygu nad ydynt yn destun pryder i'r cyhoedd. Mae mater gwasanaethau i bobl ifanc ag ymddygiad rhywiol niweidiol yn effeithio ar nifer sylweddol o blant a phobl ifanc yng Nghymru – ac nid dim ond y rheiny y mae angen iddynt gael mynediad i wasanaeth o'r fath. Mae hwn yn flaenoriaeth iechyd cyhoeddus – fel pob gwasanaeth sy'n ymwneud â cham-drin plant.

Er bod y rheiny sy'n cael eu cam-drin yn haeddu cael eu hamddiffyn a'u helpu gennym i ddelio â'r hyn sydd wedi digwydd, mae'n bwysig na ddylai plant a phobl ifanc gael eu barnu yn ôl safonau oedolion am eu hymddygiad rhywiol. Mae angen ymateb cydlynus, strategol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd ag ymddygiad rhywiol niweidiol er mwyn lleihau'r achosion o gam-drin rhywiol gan blant ac i helpu i atal y plant hyn rhag cam-drin plant pan fyddant yn oedolion.

Rydym wedi casglu gwybodaeth gan Bwyllgorau Amddiffyn Plant Ardaloedd yr holl Awdurdodau Lleol ynghylch yr adnoddau a'r gwasanaethau sydd ar gael i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag ymddygiad sy'n cynnwys cam-drin rhywiol. Ar hyn o bryd, mae gan 11 Pwyllgor Ardal ACPC gytundebau lefel gwasanaeth gyda phrosiect Taith Barnardos neu'r NSPCC neu NCH. Nid yw'r Pwyllgorau Ardal eraill yn darparu gwasanaeth arbenigol yn fewnol ac maent yn dibynnu ar gaffael y gwasanaethau hynny pan gyfyd angen. Cadarnhaodd rhai pwyllgorau hefyd nad oes ganddynt bolisi a gweithdrefn ysgrifenedig ar gyfer cyfeiriad o'r fath.

Mae gan blant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol hawl i Gynhadledd Amddiffyn Plant, ac asesiad penodol arbenigol o'u hanghenion, gyda rhaglen driniaeth briodol i ddilyn. Rwyf fi o'r farn fod darparu gwasanaethau penodol ac arbenigol ar gyfer asesu a thrin plant a phobl ifanc ag ymddygiad rhywiol niweidiol yn hawl. Byddaf felly'n gwneud sylwadau ar ddatblygu adnoddau i ddiwallu anghenion y plant hyn yn fy adroddiad i Bwyllgor y CU.

## Addysg plant sy'n derbyn gofal ac effaith bod yn rhieni corfforaethol da

Yn 2005, roedd tua 4,400 o blant yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru, a rhyw 3,000 ohonynt gyda gofalwyr maeth. Mae'n costio rhyw £40,000 y flwyddyn i ofalu am blentyn ac mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi cynyddu tua 20% mewn pedair blynedd yn unig. Rhaid i ni gofio mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw'r plant hyn yn eu rôl fel rhieni corfforaethol. Yn y rôl hon byddwn yn gobeithio bod pob awdurdod lleol yn ymdrechu i sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir i bob plentyn sy'n derbyn gofal yn cyfateb i'r hyn byddent yn ei ddisgwyl i'w plant neu eu hwyrion eu hunain. Er y gall cysyniad y rhiant ymwthiol fod yn un anghysurus i lawer, profwyd bod cael rhieni sy'n ymddiddori yn eich addysg ac yn eich annog i gyflawni eich potensial yn gallu cael effaith gadarnhaol iawn ar eich cyflawniadau yn yr ysgol, mewn addysg a hyfforddiant.

Mae'r data'n dangos bod canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal yn llawer is na'u cyfoedion. Er enghraifft, dim ond un y cant sy'n gadael gofal sy'n mynd i addysg uwch (prifysgolion) ac yn 2004 er bod 41 y cant wedi sicrhau o leiaf un TGAU neu gymhwyster cyfatebol, gadawodd 58 y cant yr ysgol heb un TGAU na chymhwyster cyfatebol. Mae ymchwil arall wedi dangos y bydd dros hanner y plant hyn a fu'n derbyn gofal yn ddi-waith. Data a chanlyniadau fel y rhain sy'n peri i mi bryderu bod angen ymateb i anghenion y plant hyn ar frys a gwella'r dull corfforaethol o fagu plant.

Dyrannwyd £1m y flwyddyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer 2006-2007 a 2007-2008. Er fy mod yn croesawu'r grant ychwanegol hwn ar gyfer addysg plant sy'n derbyn gofal ym mlynyddoedd 10 ac 11, gellid gweld targedu grant at blant sy'n derbyn gofal ym Mlynyddoedd 10 ac 11 yn unig fel mesur tymor byr sy'n ymateb i'r cyrhaeddiad addysgol is yng Nghyfnod Allweddol 4. Carwn awgrymu bod angen canolbwyntio am gyfnod hwy ar y materion sylfaenol a gwella addysg i bob plentyn sy'n derbyn gofal.



> " Mae angen mwy o offer chwaraeon a mwy o amrywiaeth yn y gwersi. "

## Tynnu'n ôl o'r ysgol o wirfodd neu waharddiadau anffurfiol

Rydym wedi dod yn gynyddol ymwybodol o arfer a fabwysiadwyd gan rai ysgolion, sef gofyn i rieni gadw plant gartref oherwydd na all yr ysgol ymdopi ag ymddygiad eu plant. Yn aml awgrymir y bydd rhieni am osgoi gwaharddiad 'gan y byddai'n edrych yn wael ar gofnod ysgol y disgybl'. Mae'r arfer hwn yn atal llawer o ddisgyblion rhag sicrhau'r gefnogaeth y mae ei hangen arnynt i aros yn y dosbarth ac yn rhoi rhai ohonynt mewn perygl. Os yw plentyn yn cael ei wahardd oherwydd ymddygiad problematig, bydd y llywodraethwyr a'r awdurdod addysg lleol yn ymwybodol o hynny ac yn medru holi a oes angen cefnogaeth ychwanegol ar y plentyn. Dylid asesu anghenion y plentyn yn gywir.

Er ei fod yn ddealladwy nad yw rhieni am i'w plentyn gael ei labelu, ym mron pob achos, bydd rhieni'n gweithredu er lles eu plentyn drwy fynnu bod yr ysgol naill ai'n darparu'n briodol ar gyfer eu plant neu yn eu gwahardd yn ffurfiol. Byddai gwaharddiad yn rhoi cyfle i'r rhieni a'r AALl benderfynu ar strategaeth hir dymor i ddiwallu anghenion y plentyn.

Bydd fy staff yn monitro'r defnydd o'r ymadawiadau gwirfoddol yma ac yn adrodd ar yr arfer i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

> " Dim ond lle chwarae i blant bach sydd yn ein ardal ni, a does dim byd i blant hyn i wneud heb deithio'n bell. "

## Dyfais y Mosgito a mater parch

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae adroddiadau newyddion am y ddyfais ataliol a adwaenir yn gyffredinol fel y Mosgito wedi bod yn destun pryder i mi. Mae'r ddyfais yn cynhyrchu sŵn uwchsain y mae'r gwneuthurwyr yn honni sydd ond yn gallu cael ei glywed gan bobl ifanc o dan 25 oed. Mae'n cael ei farchnata fel ffordd o atal ymddygiad gwrthgymdeithasol gan rai yn eu harddegau. Mae'r sŵn yma'n tarfu'n fawr ar bobl ifanc sy'n ei glywed ac yn eu gyrru i ffwrdd.

Yr hyn sy'n fy nharo i am y ddyfais yw nad yw'n gwahaniaethu ac nad yw'n mynd i'r afael â pham mae pobl ifanc yn dewis treulio amser mewn mannau penodol. Er y gall yrru pobl ifanc sydd – yng ngeiriau'r gwneuthwr- 'yn loetran yn ddibwrpas' o'r ardal o amgylch, ni fyddant ond yn mynd i rywle arall. Mae'n bosib iawn y bydd y mannau hynny heb eu goleuo cystal neu'n llai diogel na'r mannau lle roeddent wedi dewis ymgynnull. Hefyd mae'r Mosgito nid yn unig yn effeithio ar y rheiny sy'n 'loetran', ond mewn gwirionedd yn niweidio clyw'r holl bobl ifanc sy'n dod i gysylltiad ag ef.

Mae defnyddio dyfais o'r fath yn amlwg yn cyfyngu ar hawl plant a phobl ifanc i ymgynnull mewn mannau cyhoeddus, sy'n hawl o dan UNCRC. Mae'r ddyfais hefyd yn amlygu'r ffaith fod cymdeithas ein dyddiau ni'n mynnu parch gan blant a phobl ifanc ar yr union adeg pan yw'n cyfyngu ar eu hawliau.



## Limwsinau a diogelwch cerbydau

Rwyf wedi mynegi pryderon yn y gorffennol am ddiogelwch plant a phobl ifanc wrth deithio i'r ysgol yn y bws. Yn y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi dod i ddeall y gall fod llawer o blant a phobl ifanc yn teithio mewn limwsinau heb drwydded nac yswiriant. Mae hwn yn ddull teithio sydd wedi dod yn fwyfwy poblogaidd ar gyfer cludo pobl ifanc i ddigwyddiadau fel partïon pen-blwydd a dawnsiau ysgol. Mae llawer o'r cerbydau'n cael eu mewnforio o'r Unol Daleithiau ar ôl iddynt gael eu barnu'n anaddas at wasanaeth pellach. Mewn rhai achosion gallant fod yn rhy fawr ac yn anodd eu gyrru'n ddiogel ar ffyrdd Cymru.

O ran diogelwch plant mae nifer o faterion sy'n destun pryder pellach i mi. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion i yrwyr roi gwybod am euogfarnau troseddol blaenorol a'r gofyniad bod pob teithiwr yn gwisgo gwregys diogelwch. Mae angen i'r llywodraeth ganolog a lleol ystyried diwygio'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli'r diwydiant cynyddol hwn ar frys, ac i rieni fod yn ymwybodol o'r materion diogelwch hyn cyn llogi cerbydau o'r fath. Rwyf wedi siarad ag adrannau perthnasl y llywodraeth am hyn; ond mae'n ymddangos bod diffyg arian yn ei gwneud hi'n anodd iddynt fonitro'r defnydd o limwsinau wrth gludo plant. Rhaid i'r mater lles hwn dderbyn sylw'r llywodraeth leol a chenedlaethol ar unwaith.

## Plant a bwyd

Mae'r bwyd mae plant a phobl ifanc yn ei fwyta mewn ysgolion wedi bod yn destun sylw digymar yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Bu trafodaethau ynghylch bwyta'n iachach a phryderon ynghylch bwyd sothach a pheiriannau gwerthu sy'n cynnwys dim ond diodydd carbonedig llawn siwgr, neu felyster artiffisial ers sawl blwyddyn. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd eu strategaeth – Archwaeth am Fywyd – sy'n amlinellu sut maent yn bwriadu gwella'r bwyd a weinir yn ysgolion ein gwlad.

Fodd bynnag, mae angen cydnabod profiad rhai ardaloedd yn Lloegr a'r Alban, lle cafwyd bod prydau ysgol gwell yn costio mwy ac mae nifer y plant sy'n bwyta prydau ysgol wedi gostwng. Rwy'n aros i weld a fydd y syniadau yn Archwaeth am Fywyd yn gwella prydau ysgol i bob plentyn ac yn sicrhau bod gwell bwyd ysgol ar gael i fwy o blant heb fod yn rhy ddrud. Mae ansawdd y bwyd sydd ar gael mewn ysgolion yn rhywbeth mae plant a phobl ifanc wedi dweud wrthyf sy'n bwysig. Mae'n hanfodol eu bod hwy – o bosib trwy gynghorau ysgol – yn rhan o gynigion ar gyfer newid, beth bynnag y byddant.

Mae cwmnïau bwyd a diod yn gwario miliynau'n hysbysebu bwydydd llawn braster, siwgr a halen i blant. Mae'n amlwg bod hyn yn dylanwadu ar ddewisiadau bwyd plant a phobl ifanc a'u teuluoedd; ond bydd hefyd yn cael effaith sylweddol ar eu hiechyd yn y dyfodol nid yn unig o ran gordewdra, ond hefyd canser a chlefyd coronaidd y galon. Mae'r rhain yn aml yn afiechydon y gellir eu hatal ac mae angen eglur am sicrhau bod plant a phobl ifanc yn wybodus fel eu bod yn medru dewis yn iach mor aml â phosib. Rwy'n galw ar y diwydiant hysbysebu i weithredu'n gyfrifol wrth hysbysebu i blant. Byddaf yn monitro canlyniadau'r hunan-reoleiddio arfaethedig.

## Nyrsys ysgol

Yn fy adroddiad blynyddol diwethaf fe wnes i amlygu rôl allweddol nyrsys ysgol wrth sicrhau iechyd a lles plant, ac fe wnes i bwysleisio bod hwn – ochr yn ochr â chefnogaeth gwnsela a argymhellwyd yn Adroddiad Clywch – yn fater y dylid ei gymryd o ddifri. Fe wnes i hefyd ddyfynnu o'r adroddiadau amrywiol a gyhoeddwyd yn edrych ar ddyfodol y gwasanaeth nyrsys ysgol yng Nghymru.

Gwaetha'r modd, flwyddyn yn ddiweddarach, ni welwyd cynnydd boddhaol yng Nghymru, ac mae'n anodd deall pam fod negeseuon allweddol a adleisiwyd mewn tri adolygiad academaidd o'r gwasanaeth nyrsio cymunedol wedi methu â sicrhau gweithredu priodol ar frys. Arweiniodd canfyddiadau pob adolygiad yn gyson at alwadau am gynnydd yn yr adnoddau ar gyfer gwasanaethau nyrsys ysgol.

Petai'r gwasanaeth hwn yn derbyn adnoddau digonol, rheolaeth gyson a chefnogaeth dda byddai manteision i iechyd corfforol ac emosiynol plant a phobl ifanc Cymru. Mae hefyd yn eithriadol o debygol y byddai manteision o ran eu cyrhaeddiad addysgol a pherfformiad ysgolion. Byddaf yn monitro'r datblygiadau yn ystod y misoedd nesaf i sicrhau bod y gwasanaeth hwn yn cael ei ddatblygu fel mesur diogelu ychwanegol o ansawdd uchel o fewn terfynau amser rhesymol.

> "Rownd lle dwi'n byw mae lot o bobol yn hoffi chwarae."

## Defnyddio'r rhyngrwyd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n ddiogel

Er bod defnydd cynyddol o dechnoleg gan blant a phobl ifanc i'w annog, mae diogelwch y rhyngrwyd wedi dod yn fater brys wrth amddiffyn plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dweud bod rhaid i Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau) fel amod ariannu TGCh sicrhau bod trefniadau yn eu lle fel na all disgyblion gael gafael ar ddeunyddiau amhriodol drwy'r Rhyngrwyd, gan gynnwys deunydd a gyhoeddir ar y Rhyngrwyd gan ddisgyblion ac ysgolion.

Mae hefyd yn ofynnol bod AALlau yn sicrhau bod ysgolion hefyd yn ymateb i'r materion hyn drwy eu cynlluniau datblygu ysgol unigol. Mae'r AALlau yn rheoli, yn cynllunio ac yn trefnu mynediad i'r rhyngrwyd ar gyfer ysgolion, ond maent hefyd yn dibynnu ar yr ysgolion eu hunain i sicrhau arfer gorau. Mae atal gwefannau penodol a chyngor i ysgolion ar bolisïau diogelwch y rhyngrwyd yn ymateb i'r

defnydd o'r rhyngrwyd yn yr ysgol, ond nid yw'n darparu addysg effeithiol i ddisgyblion ar ddefnydd diogel cyffredinol. Rwy'n croesawu'r ffaith fod adolygiad o'r cwricwlwm TGCh ar waith ar hyn o bryd. Rwyf o'r farn ei bod yn hanfodol i ddefnydd cyfrifol o'r rhyngrwyd a'r technolegau cyfathrebu eraill newydd ddod yn rhan o'r cwricwlwm yng Nghymru. Nid yw darparu rhwystrau a muriau'n ddigonol yn lle addysg ar sut mae amddiffyn eich hunan a pham nad yw'n dderbyniol camddefnyddio'r dechnoleg i fwlio eraill. Mae'r holl waith a wnaed gan sefydliadau plant yn hyn o beth yn fy nghalonogi ac rwy'n gobeithio y bydd ymagwedd strategol yn sicrhau bod mynediad i gyngor a deunyddiau o'r fath yn cael ei hyrwyddo yn yr holl ysgolion, yn rhai cynradd ac uwchradd.

Er nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru eto wedi datblygu strategaeth ar gyfer TGCh yng Nghymru, mae'r grŵp Polisi ar gyfer y Strategaeth TGCh ar fin rhyddhau strategaeth ddrafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Mawrth 2007. 'Ein Cadw Ni'n Sâff' yw adroddiad Grŵp Adolygu Diogelu Plant Hawdd eu Niweidio ar Adolygiad y Gwasanaethau i Blant Hawdd eu Niweidio. Teitl Her rhif 7 yn yr adroddiad yw 'Y Risgiau Newydd' ac mae pwyntiau 3 a 4 yn annog "LlCC i weithredu ar frys i ymateb yn fwy cynhwysfawr i'r bygythiad a geir yn sgîl y rhyngrwyd a thechnolegau newydd" ac i "wneud mwy o ddefnydd o'r mentrau sydd ar gael". Byddaf yn parhau i ymddiddori mewn gweld sut mae'r camau hyn yn cael eu datblygu.

"Byddai'n dda cael help ychwanegol i blant sy'n gorfod colli ysgol."

## Cludiant ysgol

Fe wnes i sylwadau ar faterion cludiant ysgol yn fy adroddiad ***Ond mod i'n cyrraedd yn sâff…*** ac mae'r tîm wedi bod yn monitro cynnydd ar y gwelliannau a argymhellwyd. Roeddem yn ddiolchgar am y gwahoddiad i Grŵp Cydlynu Cludiant Ysgol Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn falch o glywed am lawer o welliannau, o oed a chyflwr y cerbydau i'w defnyddio i bolisïau ar wella ymddygiad ar fysus a awgrymwyd gan bobl ifanc. Cawsom ein calonogi hefyd gan lefel cyfranogiad plant a phobl ifanc wrth gynllunio gwasanaethau a hwyluswyd gan rai awdurdodau lleol. Mae hyn wedi arwain at ddulliau eraill blaengar.

Serch hynny, ni welir arfer da felly ym mhob rhan o Gymru ac mae'n annhebygol o gael ei weld nes i'r tendrau gael eu hasesu ar ansawdd y gwasanaeth yn hytrach na dim ond y gost. Bydd angen arweiniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn.

Yn ystod y flwyddyn bu arfer un awdurdod addysg lleol a oedd yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol am ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig gyda'u gwahoddiadau i dendro am wasanaethau tacsi yn destun pryder mawr i ni. Wedi gwneud ymholiadau cawsom nad oedd yr arfer hwn yn anghyffredin o bell ffordd. Yn ffodus, cawsom hyd i beth arfer da yn ogystal.

Fe wnaethon ni gyflwyno'n canfyddiadau i Lywodraeth Cynulliad Cymru gydag argymhelliad eu bod yn cysylltu â phob AALl gyda'r nod o ddod â'r arfer hwn i ben. Rydym yn croesawu'r ffaith y bydd Arweiniad yn cael ei gyflwyno i sicrhau nad yw dogfennau tendro'n cynnwys manylion y disgyblion a fydd yn cael eu cludo na gwybodaeth y gellid ei defnyddio i wybod pwy ydynt.

## Amddiffyn plant mewn canolfannau gweithgaredd

Mae plant yn elwa'n fawr o fynd i ganolfannau gweithgaredd lle byddant yn wynebu heriau a phrofiadau newydd ac yn dod i gysylltiad â risgiau a asesir ac a reolir yn ofalus. Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol o ddiffygion o ran sut mae polisïau amddiffyn plant yn cael eu paratoi a'u gweithredu yn y canolfannau hyn. Mae'r rhan fwyaf o ganolfannau gweithgaredd, yn synhwyrol iawn, wedi

paratoi polisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant, ond nid oes unrhyw asiantaeth sy'n gyfrifol am eu harchwilio. Mae'r Awdurdod Trwyddedu Gweithgareddau Antur yn archwilio diogelwch y gweithgareddau, ond nid yw eu cylch gorchwyl yn cynnwys amddiffyn plant. Rydym wedi cynnig y dylid ehangu eu cylch gorchwyl i wneud hynny. Byddai hyn nid yn unig yn sicrhau cysondeb, ond hefyd byddai'r canolfannau'n medru elwa o gasglu cyngor a rhannu profiad o arfer da. Eto, rydym yn disgwyl gweithredu ar ein cynnig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

## Adroddiadau UNCRC

Pan gadarnhaodd llywodraeth y DU Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ymrwymodd i sicrhau bod ei chanllawiau a'i deddfwriaeth yn cydymffurfio â'r Confensiwn. Cytunodd hefyd y byddai'n cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn bob 5 mlynedd ar y cynnydd a wnaed.

Cyflwynwyd adroddiad diwethaf Llywodraeth y DU yn 2002, a bydd y nesaf ym mis Mawrth 2007. Bydd y Pwyllgor hefyd wedyn yn croesawu adroddiadau gan sefydliadau nad ydynt yn rhan o'r llywodraeth ac, am y tro cyntaf, gan Gomisiynwyr Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr yn annibynnol ar ei gilydd.

Rwy'n bwriadu cyflwyno cynrychiolaethau llawn i'r Pwyllgor ac amlygu nid yn unig y meysydd niferus lle mae angen gwneud mwy ond hefyd y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn rhai meysydd sy'n ymwneud â hawliau plant yng Nghymru. Er bod UNCRC yn cael ei enwi'n amlwg mewn dogfennau polisi perthnasol, hoffwn weld LlCC yn gwneud mwy o ran eu dyletswydd o dan Erthygl 42 y confensiwn. Ynghyd â nifer o asiantaethau gwirfoddol, mae fy swyddfa wrthi'n hyrwyddo'r confensiwn yn ddyddiol ymhlith pobl Cymru ac yn arbennig ymhlith plant a phobl ifanc. Er nad wyf am danseilio gwerth y gwaith hwn, rhaid cydnabod ei fod ar raddfa na all gael effaith hir dymor barhaol. Rwy'n galw felly ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i adnoddu rhaglen gydlynus o gynyddu ymwybyddiaeth o'r Confensiwn a'i oblygiadau i blant, rhieni, darparwyr gwasanaeth, llunwyr polisi a'r llywodraeth ar bob lefel. Byddai hefyd yn gyfle i addysgu'r cyhoedd ynghylch y cyflawniadau a wnaed o ran gwireddu hawliau'r confensiwn yng Nghymru.

Mae'r ffaith i Lywodraeth Cynulliad Cymru wneud safiad egwyddorol ar wahardd taro plant yn destun pleser a balchder i mi ac rwy'n cefnogi eu gwaith yn annog magwraeth gadarnhaol i blant. Ac eto heb newid y ddeddfwriaeth mae'n sefyllfa ddryslyd. Nid yw'r mater hwn wedi'i ddatganoli, a daeth llywodraeth y DU i benderfyniad gwahanol i LlCC wrth i Ddeddf Plant 2004 fynd drwy'r Senedd. Mae'n dal yn gyfreithlon taro plant yn y DU, er mai dim ond mewn rhai ffyrdd. Mae'r sefyllfa bresennol yn amlwg yn hurt, ac mae angen ei hunioni cyn gynted â phosib. Mae'r mater hwn yn un lle beirniadwyd llywodraeth y DU yn llym yn y gorffennol ac mae'n debygol y bydd y Pwyllgor yn eu holi ynghylch sut a pham y bu iddynt ganiatáu i gyfle i gydymffurfio ag UNCRC gael ei golli.

“Pan nad yw pobl yn meddwl bod chwarae yn bwysig, mae hynny mynd ar fy nerfau.”



chwarae

siarad-allan

archwilio cydnabod

eiriolaeth

monitro

hawliau

parch

# Adran 6

## GWYBODAETH ARIANNOL




### Cyflwyniad

Mae'r wybodaeth ariannol sy'n dilyn wedi'i seilio ar yr Adroddiad Blynyddol llawn a Chyfrifon Adnoddau Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31ain Mawrth 2006. Trosolwg a geir yn yr adran hon, ac nid yw'n cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol i ganiatáu dealltwriaeth lawn o ganlyniadau a chyflwr trafodion Comisiynydd Plant Cymru fel a geid yn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon llawn. Cyflwynwyd y rhain i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) ac maent yn cynnwys yr wybodaeth fanwl sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith a'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol. Gallwch gael copi o'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon, yn ddi-dâl, drwy ysgrifennu at y Comisiynydd yn ei swyddfa gofrestredig.

**Tŷ Ystumllwynarth**
**Llys y Siarter**
**Phoenix Way**
**Llansamlet**
**ABERTAWE SA7 9FS**

O dan Atodlen 2 Deddf Safonau Gofal 2000, mae'n ofynnol i Gomisiynydd Plant Cymru gadw cofnodion cyfrifo cywir ar gyfer pob blwyddyn ariannol, yn unol â chyfarwyddyd cyfrifon a bennwyd gan y Cynulliad, yn manylu ar yr adnoddau a gaffaelwyd, a ddaliwyd neu a waredwyd yn ystod y cyfnod a defnydd Comisiynydd Cymru o adnoddau yn ystod y cyfnod.

## Pwyllgor Archwilio

Mae'r Comisiynydd wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio i roi cyngor a sicrwydd ynghylch llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth o fewn swyddfa'r Comisiynydd a digonoldeb y trefniadau archwilio mewnol ac allanol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio'n cyfarfod o leiaf dwywaith y flwyddyn, ac yn cynnwys uwch-swyddogion y Comisiynydd a thri aelod annibynnol, sef:

Brian Charles, Cadeirydd y Pwyllgor – cyn gadeirydd Dŵr Cymru

Tom Cassidy – Cyn Brif Weithredwr CADW

John Cory – Cyn Gyfarwyddwr Cyllid Bwrdd Croeso Cymru

## Uwch swyddogion

Bu'r canlynol yn gwasanaethu fel Uwch Dîm Rheoli yn ystod y flwyddyn:

| | |
|---|---|
| Peter Clarke | Comisiynydd Plant Cymru a Swyddog Cyfrifon |
| Maria Battle | Is-Gomisiynydd, Cyfreithiol ac Ymchwiliadau a Dirprwy Gomisiynydd |
| Rhian Davies | Is-Gomisiynydd, Polisi a Gwerthuso Gwasanaeth |
| Sara Reid | Is-Gomisiynydd, Cyfathrebu a Chyfranogiad |
| Andrew Robinson | Pennaeth Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol (tan 25 Ionawr 2006) |
| Tony Evans | Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol (o 15 Mai 2006) |

Rhwng ymadawiad Andrew Robinson (Pennaeth Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol) ym mis Ionawr 2006 a phenodiad Tony Evans yn Bennaeth newydd Gwasanaethau Corfforaethol ym mis Mai 2006, rheolwyd y swyddogaeth gwasanaethau corfforaethol gan Maria Battle yn ei rôl fel Dirprwy Gomisiynydd.

## Ariannu

Mae Comisiynydd Plant Cymru'n annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond yn cael ei ariannu ganddo. Yn 2005-06 derbyniodd y Comisiynydd £1.4 miliwn (2004-05: £1.8 miliwn) i ariannu ei weithgareddau. Ers sefydlu swyddfa'r Comisiynydd Plant mae swm yr arian a dderbynnir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cynyddu'n gyson i gyfateb i lwyth gwaith cynyddol y Comisiynydd.


Yn 2004-05 fe wnaethom ni dderbyn £296,250 a oedd ar gyfer cyfnod 2005-06.

## Canlyniadau ar gyfer y flwyddyn

Mae'r Datganiad Cost Gweithredu'n dangos cost gweithredu net, ar gyfer y cyfnod, o £1,525,000 (2004-05: £1,497,000) sy'n cynrychioli cynnydd gwariant net o 2 y cant o'i gymharu â 2004-05. Y gweddill yn y gronfa gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn oedd £118,000 (2004-05: £202,000).

Rhwng Ebrill 2005 a Mawrth 2006 mae staff y Comisiynydd wedi cynyddu o 20 (cyfwerth amser llawn) i 27 (cyfwerth amser llawn) i adlewyrchu llwyth gwaith cynyddol y Comisiynydd a'i dimau.

## Staff yn eu swyddi (fesul grŵp staff) Ebrill 2006:




## Cyfleoedd Cyfartal

Caiff pob cais am swydd gyda Chomisiynydd Plant Cymru ei ystyried ar y sail y dylai pob ymgeisydd am swydd dderbyn cyfle cyfartal am gyflogaeth a dyrchafiad ar sail eu gallu, eu cymwysterau a'u haddasrwydd ar gyfer y gwaith.

Ni ddylai unrhyw ymgeisydd am swydd na chyflogai dderbyn triniaeth lai ffafriol ar sail hil, lliw, rhyw, tueddfryd rhywiol, oedran, statws priodasol, anabledd, crefydd, cyfrifoldebau teuluol/domestig na phatrymau gwaith e.e. rhan amser, ac ni ddylai unrhyw unigolyn gael ei roi dan anfantais gan amodau neu ofynion na ellir profi eu bod wedi'u cyfiawnhau.

## Archwilwyr

Caiff cyfrifon Comisiynydd Plant Cymru eu harchwilio a'u hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â pharagraff 9 Atodlen 2 Deddf Safonau Gofal 2000.

Darparodd Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cynulliad wasanaethau archwilio mewnol i'r Comisiynydd yn ystod y cyfnod.

Yn ystod y cyfnod ni thalwyd yr archwilwyr am waith heblaw archwilio.



# Adnoddau fesul sefydliad nod ac amcanion ar gyfer y cyfnod 1af Ebrill 2005 i 31ain Mawrth 2006

## NOD AC AMCANION COMISIYNYDD PLANT CYMRU

**Nod**
Diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant ac ymarfer ei holl swyddogaethau yng nghyswllt confensiwn y CU ar hawliau'r plentyn.

| | 2005-2006 | | | 2004-2005 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | **Gros £000** | **Incwm £000** | **Net £000** | **Gros £000** | **Incwm £000** | **Net £000** |
| Amcan 1 | 787 | - | 787 | 430 | - | 430 |
| Amcan 2 | 235 | - | 235 | 272 | - | 272 |
| Amcan 3 | 55 | - | 55 | 83 | - | 83 |
| Amcan 4 | 52 | - | 52 | 30 | - | 30 |
| Amcan 5 | 18 | - | 18 | 45 | - | 45 |
| Amcan 6 | 247 | - | 247 | 602 | - | 602 |
| Amcan 7 | 40 | - | 40 | 13 | - | 13 |
| Amcan 8 | 91 | - | 91 | 22 | - | 22 |
| | **1,525** | **-** | **1,525** | **1,497** | **-** | **1,497** |

Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer 2005-06.

## Roedd amcanion y Comisiynydd fel a ganlyn:

1. Hyrwyddo hawliau a lles plant, a sicrhau bod plant a phobl ifanc Cymru'n ymwybodol o fodolaeth y Comisiynydd, o'i rôl a'i swyddogaeth, lleoliad ei swyddfeydd, sut gallan nhw gyfathrebu â'r Comisiynydd/cael gafael arno fe a'i staff, a hawliau plant a phobl Ifanc, yn enwedig y rheiny a nodir yng nghonfensiwn y CU ar hawliau'r plentyn; annog y cyfathrebu/mynediad hwnnw; a sicrhau bod cyrff cyhoeddus Cymru'n ymwybodol o hawliau plant a phobl Ifanc.
2. Sicrhau bod barn plant a phobl ifanc yn cael ei cheisio ynghylch sut dylai'r Comisiynydd ymarfer ei swyddogaeth a chynnwys rhaglen waith flynyddol y Comisiynydd.
3. Adolygu a monitro gweithrediad trefniadau cwynion, eiriolaeth a chyngor a datgelu camarfer er mwyn gweld a ydynt yn effeithiol ac i ba raddau wrth ddiogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant.
4. Adolygu a monitro effaith ymarfer neu fwriad i ymarfer unrhyw un o swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a/neu gyrff a restrir yn Atodlen 2a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 ar blant.
5. Archwilio achosion plant penodol sydd yn neu wedi derbyn gwasanaethau rheoledig gan gyrff a restrir yn Atodlen 2a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001.
6. Darparu neu drefnu cyngor, cynrychiolaeth neu gymorth arall i blentyn wrth wneud cwyn ffurfiol neu gyflwyno achos i ddarparwr gwasanaeth; a/neu unrhyw drafodion sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth, os ydynt ym marn resymol y Comisiynydd yn ymwneud â materion sy'n fwy cyffredinol gymwys neu berthnasol i hawliau a lles plant yng Nghymru. Rhoi cyngor a gwybodaeth i unrhyw un.
7. Adolygu pwerau'r Comisiynydd a'u heffaith ar blant yn barhaus.
8. Ystyried a chyflwyno cynrychiolaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar unrhyw fater sy'n effeithio ar hawliau a lles plant yng Nghymru.

Mae'r amcanion yn destun adolygiad rheolaidd i sicrhau eu bod yn adlewyrchu rôl a swyddogaeth y Comisiynydd. Dyrannwyd costau gweithredu i'r amcanion gan gyfeirio at y cyfnodau cymharol o amser a dreuliwyd gan staff ar yr amcanion uchod.

